Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
35/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/03/2016

# Hyb Plant Coll Gwent

## Adroddiad gwerthuso terfynol

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-6384-4

Hyb Plant Coll Gwent: Adroddiad gwerthuso terfynol

Cordis Bright

Safbwyntiau'r tîm ymchwil ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Jackie McDonald
Gwasanaethau Gwybodaeth ad Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: Jackie.mcdonald@wales.gsi.gov.uk

**Tabl cynnwys**

Rhestr o dablau....2
Geirfa ....3
1. Crynodeb Gweithredol....4
2. Cyflwyniad....15
3. Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad....16
4. Methodoleg....17
5. Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad ffurfiannol....20
6. Amcanion yr Hyb....24
7. Gwaith yr Hyb....25
8. Monitro a Rheoli Perfformiad....29
9. Llwyddiant Gweithredu....30
10. Defnydd o Weithgareddau ac Allbynnau....34
11. Llwyddiant o ran gwella effaith a chanlyniadau....40
12. Gwerth am arian....49
13. Casgliad....53
Adran Cyfeiriadau....54
Atodiad A: Astudiaethau Achos yr Ymgynghoriad....55

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Crynodeb o gynnydd yr Hyb o gymharu ag elfennau allweddol o waith yr Hyb a nodwyd yn ei ddamcaniaeth newid ........................................................................ 6
Tabl 3: Crynodeb o weithgarwch gwerthuso yn y camau ffurfiannol a chyfunol ................... 18
Tabl 4: Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion .......................................................... 20
Tabl 5: Cymharu canllawiau arferion da â chynllun yr Hyb .................................................. 27
Tabl 6: Crynodeb o ôl-drafodaethau bob mis yn y cam ffurfiannol a chyfunol ...................... 31
Tabl 7: Crynodeb o atgyfeiriadau gan weithwyr ôl-drafod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015 .................................................................................................................... 32
Tabl 8: Crynodeb o adborth gan sampl o 8 ffurflen werthuso a gwblhawyd ar ôl sesiwn hyfforddi ym mis Tachwedd 2015 .................................................................... 37
Tabl 9: Crynodeb o ymyraethau'r Hyb a newidiadau mewn achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll a gasglwyd drwy astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau .......... 42
Tabl 10: Manylion y newid yn nifer yr achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll ar gyfer camau ffurfiannol a chyfunol astudiaethau achos yr ymgynghoriad .................................... 44
Tabl 11: Dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb yn seiliedig ar astudiaeth achos 4 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cyfunol) ............................................................ 50
Tabl 12: Dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb yn seiliedig ar astudiaeth achos 3 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cyfunol) ............................................................ 51

## Geirfa

Mae’r tabl hwn yn diffinio’r acronymau sy’n cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn.

| **Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| CAMHS | Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed |
| CSE | Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant |
| DAYS | Gwasanaeth Ieuenctid Cyffuriau ac Alcohol |
| ESVG | Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau Agored i Niwed |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd |
| MARF | Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol |
| MIRAF | Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll |
| NFA | Dim Camau Gweithredu Pellach |
| NRM | Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol |
| SERAF | Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol |
| CAMPUS | Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol |
| YOS | Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid |

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Trosolwg

*Cyflwyniad*

1.1 Comisiynwyd Cordis Bright gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o Hyb Plant Coll Amlasiantaeth Gwent ("yr Hyb"). Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham: sefydlu, ffurfiannol a chyfunol. Dyma'r adroddiad gwerthuso cyfunol terfynol ac mae modd ei ddarllen ar y cyd â'r adroddiad ffurfiannol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015[1].

*Nodau ac amcanion y gwerthusiad*

1.2 Aeth Llywodraeth Cymru[2] ati i bennu'r nodau ac amcanion cyffredinol canlynol ar gyfer tri cham y gwerthusiad:

- Asesu effaith y prosiect ar ganlyniadau ar gyfer plant coll yng Ngwent.
- Archwilio gweithrediad yr Hyb, gan nodi gwersi ar gyfer y dyfodol.
- Amcangyfrif y goblygiadau cost sy'n deillio o effaith y prosiect ar ganlyniadau uniongyrchol yn ymwneud â buddiolwyr y prosiect.

*Methodoleg*

1.3 Yn ystod cam sefydlu'r gwerthusiad hwn, datblygwyd model rhesymegol a oedd yn nodi'r ddamcaniaeth newid sy'n sylfaen i'r Hyb, gan gyfeirio at ei fewnbynnau, ei weithgareddau a'i allbynnau arfaethedig, a sut y byddai'r rhain yn sicrhau ei effeithiau a'i ganlyniadau arfaethedig. Datblygwyd y ddamcaniaeth newid drwy adolygu dogfennau, adolygu llenyddiaeth arferion gorau ac ymgynghori â'r Hyb. Yn ystod camau ffurfiannol a chyfunol y gwerthusiad, datblygwyd dulliau cymysg i brofi i ba raddau y mae'r ddamcaniaeth newid yn gweithio yn ymarferol[3], ac i ba raddau y mae'n cael ei gweithredu yn unol â'r ddamcaniaeth newid ac yn arwain at yr effeithiau a'r canlyniadau arfaethedig.

1.4 Roedd modd cynnal gwerthusiad ansoddol, hydredol diolch i gysondeb y fethodoleg yn y camau ffurfiannol a chyfunol a'r ffaith fod yr un cyfranogwyr gwerthuso wedi'u cynnwys os yn bosibl. Mae Tabl 2 yn adran 4 yn cynnwys crynodeb manwl o weithgareddau gwerthuso yn y camau ffurfiannol a chyfunol.

## Trosolwg o'r Hyb

*Amcanion yr Hyb*

1.5 Nododd staff a rhanddeiliaid mai prif amcanion yr Hyb yw gwella bywydau a chanlyniadau plant sy'n mynd ar goll, diogelu plant, a lleihau nifer yr achosion o blant sy'n mynd ar goll. Mae hyn yn cyd-fynd â damcaniaeth newid a model rhesymeg arfaethedig yr Hyb (gweler Atodiad 2 o'r adroddiad ffurfiannol).

1.6 Nododd rhanddeiliaid yr amcanion newydd canlynol yn dilyn y cyfnod ffurfiannol:

- canfod achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant (CSE), a lleihau'r perygl o CSE ac o fasnachu mewn plant sydd ar goll;
- nodi'r rhesymau pam y mae plant yn mynd ar goll er mwyn adnabod unrhyw batrymau.

1.7 Ers y gwerthusiad ffurfiannol nid oes unrhyw ddogfennau newydd wedi'u datblygu yn ymwneud ag amcanion arfaethedig, ac mewn gwirionedd, nid yw'r uchod wedi'u dogfennu fel amcanion yr Hyb. Fodd bynnag, mae rhagor o ymgynghori â staff yr Hyb yn awgrymu

[1] Mae'r adroddiad ar gael yma: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150903-gwent-missing-children-hub-formative-evaluation-cy.pdf
[2] *Manyleb ar gyfer Gwerthuso Hyb Plant Coll Gwent* 090914 v5
[3] Gweler Atodiad 2 o'r adroddiad gwerthuso ffurfiannol ar gyfer model rhesymeg yr Hyb.

bod yr amcanion o ganfod a lleihau CSE a masnachu mewn plant wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith yr Hyb ar gyfer cyfnod peilot 10 wythnos yn unig.

*Gwaith yr Hyb*

1.8 Mae cynllun yr Hyb yn cyd-fynd i raddau helaeth ag arferion da trefniadau diogelu amlasiantaethol, fel y'u nodwyd gan adroddiad Dysgu Newydd Hybiau Diogelu Amlasiantaethol (ESVG, 2015) ac adroddiad y Prosiect Gwaith a Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol (y Swyddfa Gartref, 2014), yn enwedig o safbwynt darparu un pwynt mynediad, ymchwil yn ymwneud â phob achos o blentyn yn mynd ar goll, rhannu gwybodaeth a brysbennu atgyfeiriadau yn unol â graddfeydd risg cyffredin.

1.9 Bydd llwyddiant gweithredu elfennau allweddol gwaith yr Hyb yn cael ei ystyried yn Nhabl 1, gan gynnwys: sgrinio a brysbennu adroddiadau sy'n dod i law am blant sydd ar goll; cwblhau ffurflen asesu risg unigolyn coll (MIRAF) amlasiantaeth; darparu cyfweliadau ôl-drafod ar gyfer plant sydd wedi bod ar goll, gan gynnwys casglu gwybodaeth am risgiau, a ffactorau gwthio a thynnu; hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll; cyfrannu at gynllunio gofal; ac atgyfeirio i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gwasanaethau cyfryngu.

**Gweithredu'r Hyb o gymharu â'r ddamcaniaeth newid**

1.10 Mae Tabl 1 isod yn cymharu gwaith yr Hyb ag elfennau allweddol o sut y dylai'r Hyb weithio, yn unol â'r hyn a nodwyd yn y ddamcaniaeth newid (gweler yr adroddiad gwerthuso ffurfiannol). Yn gyffredinol, mae'n dangos bod yr Hyb yn gweithredu yn unol â'r ddamcaniaeth newid, er y gallai'r Hyb ddatblygu ei waith i gyd-fynd i raddau mwy ag elfennau o'r ddamcaniaeth newid, fel y nodir isod.

**Tabl 1: Crynodeb o gynnydd yr Hyb o gymharu ag elfennau allweddol o waith yr Hyb a nodwyd yn ei ddamcaniaeth newid**

| Elfen allweddol o waith yr Hyb, fel y'i nodir yn y ddamcaniaeth newid | Cynnydd a nodwyd |
|---|---|
| Gwella mynediad ar gyfer ymarferwyr i wybodaeth amlasiantaethol am blant sy'n mynd ar goll. Yn y cyswllt hwn, nod yr Hyb yw monitro adroddiadau am blant sydd ar goll mewn ffordd ragweithiol, a nodi digwyddiadau ledled yr holl randdeiliaid perthnasol. Hefyd, mae'r Hyb wedi sefydlu'r MIRAF sy'n ceisio casglu data a gwybodaeth berthnasol am blentyn neu berson ifanc sy'n mynd ar goll, gan sicrhau bod asesiad risg cadarn ar waith. Y nod yw rhannu gwybodaeth y MIRAF yn eang ag ymarferwyr ac ysgolion perthnasol. Hefyd, disgwylir i ymarferwyr yr Hyb fynychu cyfarfodydd cynlluniau a strategaethau gofal er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol. | **Yn gyffredinol, mae'r Hyb yn sicrhau bod gwybodaeth amlasiantaethol am blant sy'n mynd ar goll ar gael i ymarferwyr.** Nodir y canlynol yn benodol:<br>• Mae'r Hyb yn monitro ac yn adolygu pob adroddiad am blant sy'n mynd ar goll sy'n dod i law.<br>• Mae'r Hyb yn cynnal asesiad risg amlasiantaethol o bob achos cymwys o blentyn sydd ar goll, gan ei rannu wedyn ag ymarferwyr amlasiantaeth drwy'r MIRAF. Ers sefydlu'r Hyb, mae wedi cwblhau dros 1,304 o MIRAFs, ac mae'r broses hon yn cael ei hategu gan ganllawiau wedi'u dogfennu bellach.<br>• Mae'r Hyb yn diweddaru'r MIRAF ar ôl pum achos o blentyn yn mynd ar goll, neu os yw lefel risg plentyn wedi cynyddu. Nododd staff a rhanddeiliaid y byddent yn hoffi gweld y MIRAF yn cael ei diweddaru'n fwy rheolaidd os yw'r adnoddau ar gael i wneud hynny.<br>• Mae'r Hyb yn sicrhau bod y MIRAF yn hygyrch drwy ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr ar y ffurflen a thrwy anfon e-byst i wasanaethau cymdeithasol i'w hysbysu am y ffaith fod MIRAF wedi'i diweddaru.<br>• Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod yna lefelau uchel o ymwybyddiaeth a defnydd o'r MIRAF gan weithwyr proffesiynol perthnasol yng Ngwent.<br>• Mae'r dogfennau'n dangos bod staff yr Hyb yn mynychu cyfarfodydd cynlluniau a strategaethau gofal i gefnogi penderfyniadau effeithiol, er bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gallai staff yr Hyb fynychu'n fwy rheolaidd, sydd hefyd yn dibynnu ar staff yr Hyb yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd. |
| Gwella ansawdd a chysondeb data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan blant sy'n mynd ar goll. Yn y cyswllt hwn, mae Llamau yn bwriadu gweithio gyda'r Hyb er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n mynd ar goll yn cael cyfweliad ôl-drafodaeth. | **Yn gyffredinol, mae'r Hyb wedi gwella ansawdd a chysondeb y data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan blant sy'n mynd ar goll.** Nodir y canlynol yn benodol:<br>• Mae'r Hyb yn darparu sesiynau ôl-drafod Llamau ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, ac yn ailadrodd sesiynau ôl-drafod ar gyfer plant sy'n mynd ar goll fwy nag unwaith. Ers ei sefydlu, mae'r Hyb wedi darparu tua 36 o sesiynau ôl-drafod bob mis ar gyfartaledd.<br>• Dywedodd plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol fod gweithwyr ôl-drafod Llamau yn ymgysylltu'n dda â phlant a phobl ifanc, yn bennaf oherwydd eu statws annibynnol a'u hagweddau 'dynol'.<br>• Mae'r Hyb yn gallu defnyddio'r sesiynau ôl-drafod i gasglu a choladu gwybodaeth am: ffactorau gwthio a thynnu sy'n effeithio ar pam y mae plant yn mynd ar goll; ble mae plant sydd ar goll yn debygol o fod; gyda phwy y mae plant sy'n mynd ar goll yn debygol o fod; a risgiau sy'n gysylltiedig â phlant penodol sy'n mynd ar goll.<br>• Yn unol â'n hargymhellion isod, byddai datblygu dulliau monitro a |

| Elfen allweddol o waith yr Hyb, fel y'i nodir yn y ddamcaniaeth newid | Cynnydd a nodwyd |
|---|---|
| | rheoli perfformiad y gwasanaeth ôl-drafod yn helpu i ddangos i ba raddau y mae'r gwasanaeth ôl-drafod yn cael ei ddarparu yn gyson ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, ac i ba radau y mae gwybodaeth yn cael ei chasglu'n gyson ganddynt.<br>• Nodwyd bod swyddog yr heddlu ar gyfer plant coll sy'n gweithio yn yr Hyb fel rhan o gynllun peilot 10 wythnos wedi helpu i gasglu gwybodaeth gan blant sy'n mynd ar goll hefyd. |
| Gwella cyfraniad plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll at benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r cymorth sy'n cael ei roi iddyn nhw a/neu eu teuluoedd. Yn y cyswllt hwn, mae Llamau yn bwriadu gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll er mwyn darparu gwasanaethau cyfryngu, eirioli a mentora. | **Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr Hyb yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r cymorth sy'n cael ei roi iddyn nhw a/neu eu teuluoedd.** Nodir y canlynol yn benodol:<br>• Mae'r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc rannu eu dymuniadau ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r cymorth sy'n cael ei roi iddyn nhw a/neu eu teuluoedd.<br>• Mewn rhai achosion, mae tystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy astudiaethau achos ymgynghori yn awgrymu bod dymuniadau plant yn dylanwadu ar gynlluniau amlasiantaeth i wneud penderfyniadau ar faterion fel lleoliadau gofal.<br>• Cyfeiriodd yr Hyb at ffactorau sydd y tu hwnt i'w ddylanwad sy'n cyfyngu ar ei allu i wella mewnbwn plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae gallu'r Hyb i ddylanwadu ar benderfyniadau a chymorth yn unol â safbwyntiau plant a phobl ifanc yn dibynnu ar i ba raddau y mae'n cael ei wahodd i gyfarfodydd strategaeth neu i ba raddau y mae gwasanaethau cymorth allanol ar gael.<br>• Nid yw darpariaeth fentora y tu allan i'r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu yn cael ei darparu gan yr Hyb. Mae'r Hyb wedi penderfynu peidio â datblygu gwasanaeth mentora cymheiriaid ar gyfer gweithgareddau atal oherwydd y risgiau cysylltiedig. Dylai ystyried a oes angen darpariaeth amgen er mwyn cyflawni nodau gwreiddiol y fenter atal hon. |
| Gwella gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll. Yn y cyswllt hwn, mae'r Hyb yn darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer ymarferwyr, ac yn codi eu hymwybyddiaeth. | **Yn gyffredinol, mae'r Hyb wedi gwella gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll. Nodir y canlynol yn benodol:**<br>• Mae'r Hyb wedi darparu hyfforddiant i dros 1,912 o ymarferwyr ers ei sefydlu, gan gynnwys staff yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd a gofal. Serch hynny, mae prosesau ymgysylltu'r Hyb ag asiantaethau gwahanol wedi amrywio.<br>• Mae'r Hyb wedi hyfforddi dros 527 o yrwyr tacsi yng Nghasnewydd hefyd.<br>• Mae'r hyfforddiant yn ymwneud â phlant sydd ar goll, categorïau o blant sydd ar goll, rhoi gwybod am blant sydd ar goll, defnyddio MIRAF, a pheryglon camfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant.<br>• Yn gyffredinol, mae gweithwyr proffesiynol o'r farn fod hyfforddiant yr Hyb yn ddefnyddiol. Yn benodol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyfforddiant yr Hyb wedi cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i:<br>o Fod yn fwy ymwybodol o'r mathau a lefelau o risg sy'n wynebu |

| Elfen allweddol o waith yr Hyb, fel y'i nodir yn y ddamcaniaeth newid | Cynnydd a nodwyd |
|---|---|
| | plant sy'n mynd ar goll.<br>o Bod yn llai tebygol o ystyried plant sy'n mynd ar goll yn *'blant sy'n achosi problemau'* neu *'gyfranogwyr parod'* ac yn fwy tebygol o'u hystyried yn ddioddefwyr sy'n *'cael eu gorfodi'*.<br>o Gwybod sut i ymateb yn fwy priodol i blant sy'n mynd ar goll.<br>• Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu nad yw ymateb gweithwyr proffesiynol i blant sy'n mynd ar goll wedi gwella bob tro ar ôl iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant yr Hyb. Yn y dyfodol, gall dadansoddi adborth gan y rhai sy'n derbyn hyfforddiant helpu i nodi'r rhesymau pam nad yw hyfforddiant yn cael yr effaith a'r canlyniad dymunol o bosibl.<br>• Mae rhywfaint o dystiolaeth nad oes gan bob gweithiwr proffesiynol y lefel o wybodaeth a sgiliau sydd ei hangen i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n mynd ar goll. O ganlyniad, dylai'r Hyb barhau i sicrhau ei fod yn hyfforddi'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol, o bosibl fel rhan o'r prosesau ymsefydlu. |
| Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth plant, teuluoedd a gofalwyr. Yn y cyswllt hwn, mae'r Hyb yn ceisio cynnig hyfforddiant, gweithdai a chymorth i'r grwpiau hyn. | **Mae'r Hyb wedi dechrau gwella gwybodaeth a dealltwriaeth plant, teuluoedd a gofalwyr, ond mae angen i'r Hyb ddatblygu'r maes hwn.**<br>• Mae'r Hyb wedi defnyddio'r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu i wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant, teuluoedd a gofalwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â mynd ar goll a'r ymatebion priodol. Mae'n debyg y bydd y fforwm gofalwyr preswyl a'r fforwm gofalwyr maeth arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith hwn.<br>• Fodd bynnag, mae darparu hyfforddiant a gweithdai ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn faes sydd angen ei ddatblygu i'r Hyb. Yn benodol, mae angen i'r Hyb ddatblygu gwaith atal sylfaenol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant sydd mewn perygl o fynd ar goll am y tro cyntaf. |

1.11 Er mwyn gwella'r broses o ailadrodd model Hyb a'r gwaith o'i gyflwyno, argymhellir y dylai'r Hyb ddatblygu cynllun strategol CAMPUS a 'Chylch Gorchwyl' wedi'u diweddaru er mwyn sicrhau bod pob un o'r staff a'r rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r Hyb yn deall yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ac yn gallu gweithio tuag at yr un nodau (gweler yr argymhellion isod).

**Llwyddiant wrth wella effaith a chanlyniadau**

*Effaith ar randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant*

1.12 Yn gyffredinol, mae'r Hyb yn cael effaith gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant drwy wella'r canlynol:

- mynediad i wybodaeth gywir ac amserol am blant sy'n mynd ar goll;
- y gallu i nodi achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll a'r perygl o bobl ifanc yn mynd ar goll yn gynnar;
- y gallu i gydweithio'n fwy effeithiol, rhannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu gwaith;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o amgylchiadau'r person ifanc a'r peryglon cysylltiedig;
- agweddau tuag at blant sy'n mynd ar goll, yn enwedig y gallu i nodi sut maen nhw'n agored i niwed a'r peryglon sy'n eu hwynebu.

1.13 Mewn nifer fach o astudiaethau achos ymgynghori a chyfweliadau â rhanddeiliaid, roedd tystiolaeth y gallai'r Hyb gael fwy o effaith ar randdeiliaid oherwydd, er enghraifft:

- Mae tystiolaeth nad yw nifer fach o weithwyr proffesiynol mor ymwybodol o'r MIRAF ag y gallent fod, sy'n golygu nad ydynt yn manteisio'n llawn arni.
- Mae tystiolaeth nad yw gweithwyr proffesiynol yn mynd ati'n effeithiol bob amser i rannu gwybodaeth â'i gilydd am y plant sydd ar goll.
- Mae tystiolaeth nad yw nifer fach o weithwyr proffesiynol yn ymateb yn briodol bob amser i blant sydd ar goll.

1.14 Fel y nodir yn y gwerthusiad ffurfiannol, mae angen datblygu prosesau monitro a rheoli perfformiad drwy ddull mwy systematig o gasglu a dadansoddi adborth gan randdeiliaid. Byddai hyn yn galluogi'r Hyb i ddangos ei effaith ar weithwyr proffesiynol a gwella ei waith gyda nhw.

*Effaith ar blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll*

1.15 Oherwydd y fethodoleg werthuso, nid ydym yn gallu dod i gasgliadau pendant ynglŷn ag effaith a chanlyniadau'r Hyb, yn enwedig felly i ba raddau y mae'n lleihau'r tebygolrwydd o blant yn mynd ar goll yng Ngwent. Fodd bynnag, gan fod yr Hyb yn cyflawni ei feysydd gwaith allweddol yn unol â'i ddamcaniaeth newid i raddau helaeth, fel y gwelir yn Nhabl 1, mae'n debyg bod yr Hyb yn sicrhau'r effeithiau a'r canlyniadau dymunol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn i asesu effaith a chanlyniadau'r Hyb ar blant sydd ar goll yn cael ei thrafod maes o law, ac yn adran 11.

1.16 Mae'r rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid wedi nodi bod yr Hyb yn helpu i leihau nifer yr achosion o bobl ifanc sy'n mynd ar goll. Fodd bynnag, dim ond nifer fach a oedd yn gallu darparu tystiolaeth neu enghreifftiau i egluro hyn. Dywedodd rhanddeiliaid a staff y byddai angen iddynt gael mynediad i ddata monitro perthnasol er mwyn mynegi barn yn hyderus.

1.17 Mae astudiaethau achos yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn darparu tystiolaeth o'r effaith ar blant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro. Er enghraifft, yn y 12 astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau[4] (lle'r oedd y plentyn wedi mynd ar goll dro ar ôl tro a bod lleihau nifer yr achosion o'r plentyn yn mynd ar goll yn un o effeithiau arfaethedig cyfraniad yr Hyb), mae yna dystiolaeth bod ymyrraeth yr Hyb wedi helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r person ifanc yn mynd ar goll eto mewn pum achos. Er enghraifft, yn astudiaeth achos 2 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cyfunol), ar ôl cwblhau'r MIRAF, argymhellodd yr Hyb y dylid cofnodi bod y person ifanc yn absennol yn hytrach nag ar goll, gan leihau nifer yr achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll yr adroddir amdanynt.

1.18 Mae gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll wedi'i gofnodi yn wyth o ddeuddeg astudiaeth achos yr ymgynghoriad[5] lle'r oedd tystiolaeth bod y plentyn neu'r person ifanc yn mynd ar goll dro ar ôl tro. Mewn pum achos, ceir tystiolaeth bod y gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll dro ar ôl tro i'w briodoli'n rhannol i'r Hyb. Er enghraifft, yn astudiaeth achos saith (cyfunol), roedd y person ifanc a'i gofalwr maeth wedi priodoli'r gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll yn uniongyrchol i ymyrraeth yr Hyb, gan gyfeirio'n benodol at waith eirioli'r gweithiwr ôl-drafod a arweiniodd at newid lleoliad gofal y person ifanc.

1.19 Mae'n bwysig nodi bod yr astudiaethau achos ond yn cyflwyno profiadau cyfran fach o'r plant y mae'r Hyb wedi ymwneud â nhw a'u bod yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol y rhai a gymerodd ran. Fel mae'r adroddiad ffurfiannol wedi'i drafod, yn hytrach na datgelu i ba raddau y mae'r Hyb yn llwyddo i sicrhau canlyniadau ac effeithiau arfaethedig, mae'r

[4] Casglwyd y rhain unwaith naill ai yn y cam ffurfiannol neu'r cam cyfunol.
[5] Mae hyn yn cynnwys dwy astudiaeth achos yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod cam ffurfiannol a cham cyfunol y gwerthusiad.

astudiaethau achos yn dangos bod mecanweithiau'r Hyb yn gallu arwain at newidiadau arfaethedig, a bod hynny wedi digwydd mewn rhai achosion.

*Gwella canlyniadau eraill ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll*

1.20 Ceir tystiolaeth addawol bod yr Hyb yn cydweithio â'i bartneriaid i helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill, sy'n rhagori ar debygolrwydd neu ddigwyddiadau mynd ar goll, ar gyfer plant sy'n mynd ar goll. Er enghraifft, mae tystiolaeth o gyfweliadau â staff a rhanddeiliaid, o astudiaethau achos yr ymgynghoriad ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn awgrymu bod yr Hyb yn helpu i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol eraill canlynol ar gyfer plant sy'n mynd ar goll:

- Lleihau troseddu
- Lleihau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant
- Lleihau profiad o ddioddef niwed, fel camddefnyddio sylweddau a hunan-niwed
- Cynyddu presenoldeb addysgol
- Gwella cysylltiadau teuluol
- Lleihau'r perygl o ddigartrefedd

1.21 Fodd bynnag, mae tystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid a staff, astudiaethau achos yr ymgynghoriad ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn dangos bod rhai plant a phobl ifanc wedi parhau i wynebu peryglon a dioddef niwed pan eu bod ar goll, gan gynnwys masnachu mewn plant (astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar achosion 6, cam cyfunol).

1.22 Mae'r dystiolaeth newydd hon sy'n seiliedig ar sampl fach yn awgrymu bod llwyddiant yr Hyb yn gymysg o ran gwella canlyniadau eraill ar gyfer plant sy'n mynd ar goll. Byddai datblygu proses gynllunio strategol a mecanweithiau monitro a rheoli perfformiad mwy cadarn yn galluogi'r Hyb i fesur yn effeithiol i ba raddau y mae'n sicrhau'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc.

*Effaith yr Hyb yn amrywio*

1.23 Nododd mwyafrif y staff a lleiafrif y rhanddeiliaid fod effaith yr Hyb yn amrywio fesul awdurdod lleol, yn rhannol oherwydd bod yr Hyb yn dibynnu ar ddarpariaeth gwasanaethau atgyfeirio wahanol ar gyfer plant a phobl ifanc, fel darpariaeth cymorth Cadwch yn Ddiogel yn erbyn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Hefyd, nododd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid fod effaith yr Hyb yn amrywio yn ôl lefel yr angen. Nododd mwyafrif y rhain fod yr Hyb yn fwy effeithiol fel dull ymyrraeth gynnar ar hyn o bryd ar gyfer plant sydd wedi mynd ar goll unwaith neu ddwy yn unig ac ar gyfer plant iau, yn hytrach nag ar gyfer plant hŷn, sy'n debygol o fod â hanes hirach o fynd ar goll ac o ymddygiad risg.

**Gwerth am arian**

1.24 Ar sail y data mwyaf perthnasol a adolygwyd ym mis Ebrill 2015, amcangyfrifir y bydd yn costio £406,367 i gynnal yr Hyb am flwyddyn.

1.25 Gan nad oes unrhyw ddata meintiol cyfanredol wedi'i gasglu yn ymwneud â chanlyniadau'r Hyb, nid oes modd cynnal dadansoddiad cost a budd cadarn o'r Hyb. Yn hytrach, rydym wedi cynnal dadansoddiadau cost a budd o ymyrraeth yr Hyb yn ymwneud â dwy astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er enghraifft, yn yr astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau pedwar (cyfunol), amcangyfrifir bod ymyriadau'r Hyb wedi costio tua £1,572 drwy ddarparu neu hwyluso cymorth ôl-drafod, cyfryngu, gwaith cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau neu gwnsela ysgolion. Amcangyfrifir yn yr achos hwn y gallai cyfraniad yr Hyb fod wedi helpu i osgoi gwariant gwerth tua £6,378 – gan arbed

tua £4,608 i'r trethdalwr yn yr achos hwn, yn benodol drwy osgoi achosion o fynd ar goll a gwella presenoldeb mewn ysgolion.

1.26 Nododd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a'r holl staff fod yr Hyb yn cynnig gwerth da am arian.

1.27 Gall yr Hyb helpu i ddangos ei fod yn rhoi gwerth am arian yn y dyfodol drwy gasglu a dadansoddi data canlyniadau meintiol, ar gyfer pob achos ac mewn fformat cyfanredol os oes modd.

**Casgliad**

1.28 Mae'r Hyb yn brosiect arloesol sy'n darparu gwasanaeth unigryw ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll, yn ardal Gwent. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod meysydd gwaith allweddol yr Hyb yn cael eu cyflawni yn briodol ac yn unol â'r ddamcaniaeth newid ac arferion da ar gyfer gwaith amlasiantaeth i raddau helaeth. Hefyd, mewn rhai achosion, mae tystiolaeth newydd yn dangos bod yr Hyb yn sicrhau'r effeithiau a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll.

1.29 Fodd bynnag, fel y nodwyd gydol yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiad ffurfiannol, mae cynllunio strategol, monitro a rheoli perfformiad yn ddulliau allweddol o ddatblygu gwaith yr Hyb o hyd. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i fynd ati'n gyson i ddangos ei werth a dangos i ba raddau y mae'n sicrhau'r canlyniadau arfaethedig.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion isod yn datblygu'r argymhellion a amlinellwyd yn y gwerthusiad ffurfiannol, ac mae llawer ohonynt yn feysydd allweddol i'w datblygu ar gyfer yr Hyb. Er mwyn gweithredu a chyflawni rhai o'r amcanion hyn, mae'n bwysig cydnabod y bydd angen adnoddau a chymorth ychwanegol ar y Hyb o bosibl gan bartneriaid fel bwrdd yr Hyb, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Yn yr achosion hyn, dylai'r Hyb ofyn am gyllid ychwanegol ac ymgysylltu â phartneriaid i ofyn am gymorth lle bo hynny'n briodol.

*Cynllunio strategol*

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Hyb ddatblygu cynllun strategol CAMPUS. Rydym yn argymell y canlynol yn benodol:

- Dylai'r Hyb ddatblygu ei 'Gylch Gorchwyl' i lunio nodau ac amcanion manwl a chyson er mwyn sicrhau bod holl staff a rhanddeiliaid yr Hyb yn deall beth y mae'n ceisio ei gyflawni ac yn gallu gweithio tuag at yr un nodau. Dylai'r rhain gynnwys unrhyw amcanion newydd sydd wedi'u sefydlu, fel lleihau masnachu mewn plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, os ydynt wedi'u nodi'n amcanion yr Hyb yn dilyn y cynllun peilot diweddar.
- Dylai'r uchod lywio'r cynllun strategol CAMPUS, a ddylai fod yn seiliedig ar y model rhesymeg (a amlinellwyd yn yr adroddiad ffurfiannol) ar gyfer y prosiect. Dylai'r cynllun gynnwys nodau ac amcanion CAMPUS ar gyfer y gweithgareddau, yr allbynnau, yr effeithiau a'r canlyniadau y mae'r Hyb yn gobeithio eu cyflawni ynghyd â mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i bwyso a mesur cynnydd a llwyddiant.
- Dylid ystyried tystiolaeth o effaith wahanol yr Hyb ar sail lefel angen (er enghraifft, nododd y staff fod yr Hyb yn gweithio'n fwy effeithiol gyda phlant risg isel) wrth lunio'r cynllun a'i ddefnyddio fel rhan o ddull rheoli perfformiad systematig. Bydd hyn yn helpu'r Hyb i asesu i ba raddau y bydd y gwahaniaeth hwn yn galluogi'r Hyb i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach yn well, h.y. os nad yw'r Hyb yn cael yr un effaith ar blant risg uchel, gall y ffaith hon effeithio ar y gwaith cynllunio.

*Darparu gwasanaethau*

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Hyb lunio protocolau sylfaenol yn y meysydd canlynol er mwyn sicrhau ymarfer cyson a thryloyw: proses a phenderfyniadau ôl-drafod, gan gynnwys nodi unrhyw feini prawf cymhwysedd yn glir; proses cyfryngu; gwaith ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant; ac ymyraethau eraill sy'n cael eu darparu gan yr Hyb/ar ran yr Hyb - sy'n cynnwys amserlenni a phrosesau sicrhau ansawdd yn ddelfrydol.

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu'r Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll (MIRAF) drwy sicrhau'r canlynol: (a) bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gallu manteisio arni neu gyfrannu ati yn gwybod amdani ac yn gwybod sut i'w defnyddio; (b) bod cofnodion MIRAF yn cael eu cadw mor gyfoes â phosibl; (c) bod ffurflen adolygu ac ailasesu ar gael; (d) bod materion technegol yn cael eu hadolygu a'u datrys; (e) bod rhybuddion 'ping' yn ymwneud â diweddariadau MIRAF yn cael eu hymestyn i asiantaethau eraill yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol; (f) bod modd dadansoddi data crynswth a data chwiliadau er mwyn nodi nifer y plant risg uchel neu nifer y plant sy'n derbyn gofal.

**Argymhelliad 4:** Mae tystiolaeth yr Hyb yn awgrymu bod swyddog yr heddlu dynodedig dros dro ar gyfer plant coll yn effeithiol a'i fod wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran gwella gwybodaeth ac ymatebion i achosion o fynd ar goll, ac o bosibl o safbwynt lleihau nifer yr achosion o fynd ar goll. Felly, os penderfynir na ellir cyflawni canlyniadau tebyg heb y swydd hon yn yr Hyb, gall cyllidwyr ystyried ariannu'r swydd hon yn barhaol.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Hyb ddatblygu ei waith fel ffynhonnell atal sylfaenol. Bydd hyn yn helpu'r Hyb i sicrhau bod ei waith yn cyd-fynd i raddau mwy â'i weithgareddau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y ddamcaniaeth newid, a gall ei helpu i atal plant rhag mynd ar goll. Dylai'r Hyb ystyried a fydd angen cynnig darpariaeth amgen i wneud gwaith y gwasanaeth mentora cymheiriaid. Roedd yr Hyb wedi bwriadu rhoi'r gwasanaeth hwn ar waith yn wreiddiol, ond mae wedi penderfynu yn erbyn hynny bellach.

**Argymhelliad 6:** Er mwyn parhau i ymestyn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr ac osgoi bylchau mewn hyfforddiant ar gyfer staff amlasiantaeth newydd, dylai'r Hyb gynnwys sesiwn hyfforddi neu ymwybyddiaeth fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd sydd â chyfrifoldebau perthnasol ym meysydd gwasanaethau allweddol fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg.

*Monitro a rheoli perfformiad*

**Argymhelliad 7:** Dylai'r Hyb ddatblygu system rheoli perfformiad cadarn a ffurfiol sy'n gysylltiedig â'r cynllun strategol CAMPUS ym mhob maes gwaith er mwyn asesu i ba raddau y mae'r Hyb yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig ac yn cael yr effaith ddymunol.

Er enghraifft, dylai Llamau a'r Hyb barhau i ddatblygu eu gwaith monitro a rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:

- casglu a dadansoddi data yn gyson dros amser a lleoliadau;
- darparu gwybodaeth fethodolegol gyda data monitro;
- casglu a dadansoddi'r data mewn perthynas â'r canlyniadau arfaethedig, fel dadansoddi niferoedd plant sydd ar goll ar sail nifer y rhai sydd â chynllun amddiffyn plant neu gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ôl-drafod sy'n ymwneud â'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni[6];

[6] Rydym yn deall bod yr Hyb wedi treialu sawl dull gwahanol o gasglu adborth gan blant a phobl ifanc a bod llwyddiant y dulliau hyn wedi amrywio. Hefyd, mae'r Hyb wrthi'n paratoi arolwg ar gyfer holl ddisgyblion blwyddyn 11 Gwent er mwyn ceisio dysgu am effaith y gwasanaeth ôl-drafod. Dylid monitro effeithiolrwydd y dull hwn ac ystyried mabwysiadu dulliau eraill os nad yw'n effeithiol.

- adrodd a chymharu data monitro yn erbyn targedau CAMPUS i fesur a dangos cynnydd a chyflawniadau.

Yn ogystal, dylai'r Hyb a Llamau ystyried y canlynol o ran monitro darpariaeth y gwasanaeth ôl-drafod:

- asesu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfarfodydd ôl-drafod o gymharu â chyfanswm y plant sydd wedi mynd ar goll yng Ngwent, sy'n gymwys ar gyfer cyfarfodydd ôl-drafod, yn yr un cyfnod, yn ogystal â chymharu â nifer y rhai sydd wedi'u hatgyfeirio i'r gwasanaeth. Bydd datblygu'r gronfa ddata Dim Camau Pellach gan yr Hyb yn sylfaen i'r gwaith hwn. Bydd hyn yn rhoi darlun sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth o ddefnydd y gwasanaeth hwn ymysg ei gynulleidfa darged gyffredinol;
- cadw cofnod ac adrodd ar y rhesymau pam nad yw rhai plant yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth ôl-drafod. Bydd y dull monitro hwn yn helpu'r Hyb i ddeall i ba raddau y mae wedi ymgysylltu â'i gynulleidfa darged ehangach o blant sy'n mynd ar goll ac asesu darpariaeth yn unol â hynny;
- dadansoddi nifer y sesiynau ôl-drafod a ddarperir fesul plentyn yn adroddiadau chwarterol Llamau er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am ddosbarthiad y gwasanaeth ôl-drafod ymysg yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Argymhelliad 8:** Dylai'r Hyb ystyried datblygu proses fwy cadarn i oruchwylio rheolaeth a sicrhau ansawdd o fewn y tîm ei hun nad yw'n dibynnu ar un person allweddol, mewn perthynas â chwblhau a sicrhau cywirdeb adroddiadau MIRAF er enghraifft. Gellid gwneud hyn drwy gymryd hapsampl.

**Argymhelliad 9**: Dylai'r Hyb ddatblygu dulliau adborth defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, yn unol â thargedau CAMPUS, er mwyn asesu pa mor effeithiol yw pob un o feysydd gwaith yr Hyb wrth ddiwallu anghenion y rhai y mae'n gweithio gyda nhw. Gallai'r adborth gynnwys: (a) nodweddion cefndir y rhanddeiliad neu'r defnyddiwr gwasanaethau, (b) pam ei fod wedi cysylltu â'r Hyb, (c) y cymorth a ddarparodd yr Hyb, (d) pa mor fodlon oedd y rhanddeiliad neu'r defnyddiwr gwasanaethau â'r Hyb, ac (e) sut y gallai'r Hyb wella yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10**: Dylai'r Hyb ddadansoddi adborth ar hyfforddiant a nodir mewn ffurflenni gwerthuso yn erbyn targedau CAMPUS er mwyn asesu a yw'n helpu ymarferwyr i ddeall y problemau a'r risg sy'n gysylltiedig â phlant sydd ar goll, gan ddefnyddio MIRAF ac yn rhannu gwybodaeth â'r tîm. Hefyd, dylent nodi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliant, ac os yn briodol, eu gweithredu mewn sesiynau hyfforddiant yn y dyfodol.

*Gweinyddu*

**Argymhelliad 11**: Dylai'r Hyb adolygu ei seilwaith a'i systemau gweinyddol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Er enghraifft:

- Dylai'r Hyb ddatblygu system electronig (i ddisodli / ategu'r Bwrdd Gwyn) o gofnodi plant sydd ar goll er mwyn gwella diogelwch data, cynorthwyo monitro effeithiol ac arddangos gwaith yr Hyb dros amser.
- Dylai staff yr Hyb gael mynediad i system e-bost a gyriant cyfrifiadur cyffredin, wedi'u darparu gan un Awdurdod Lleol arweiniol, er enghraifft, er mwyn creu templedi a chadw data a gwybodaeth mewn un lle sydd ar gael i'r holl staff. Bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn galluogi mynediad i wybodaeth os nad yw aelod o staff ar gael.

*Gwerth am arian*

**Argymhelliad 12**: Er mwyn dangos gwerth am arian a chostau a buddion, dylai'r Hyb gasglu data pendant a meintiol ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer: a) plant penodol, ac yn ddelfrydol b) yr holl blant sy'n derbyn cymorth ganddo.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Comisiynwyd Cordis Bright gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o Hyb Plant Coll Amlasiantaeth Gwent (“yr Hyb”). Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham: sefydlu, ffurfiannol a chyfunol. Dyma’r adroddiad gwerthuso terfynol sy’n dadansoddi’r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y tri cham. Mae modd ei ddarllen ar y cyd â’r adroddiad ffurfiannol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015[7].

[7] Mae’r adroddiad ar gael yma: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150903-gwent-missing-children-hub-formative-evaluation-cy.pdf

## 3. Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

3.1 Aeth Llywodraeth Cymru[8] ati i bennu'r nodau ac amcanion canlynol cyffredinol ar gyfer tri cham y gwerthusiad:

- Asesu effaith y prosiect ar ganlyniadau ar gyfer plant coll yng Ngwent.
- Archwilio gweithrediad yr Hyb, gan nodi gwersi ar gyfer y dyfodol.
- Amcangyfrif y goblygiadau cost sy'n deillio o effaith y prosiect ar ganlyniadau uniongyrchol yn ymwneud â buddiolwyr y prosiect.

[8] *Manyleb ar gyfer Gwerthuso Hyb Plant Coll Gwent* 090914 v5

## 4. Methodoleg

4.1 Yng ngham sefydlu'r gwerthusiad hwn, mabwysiadwyd dull gweithredu damcaniaethol a oedd yn cynnwys datblygu damcaniaeth newid a model rhesymegol ar gyfer yr Hyb, gan gynnwys ei fewnbynnau, ei weithgareddau, ei allbynnau a'i effeithiau a'i ganlyniadau arfaethedig. Datblygwyd hyn drwy'r canlynol: adolygiad o ddogfennau, adolygiad o lenyddiaeth arfer da ac ymgynghoriad â'r Hyb. Yn ystod camau ffurfiannol a chyfunol y gwerthusiad, datblygwyd system o ddulliau cymysg i brofi i ba raddau y mae'r ddamcaniaeth newid yn gweithio yn ymarferol[9]. O ganlyniad, cynlluniwyd ein dulliau ymchwil i bwyso a mesur effeithiolrwydd yr Hyb o safbwynt ei ddamcaniaeth newid a'i fodel rhesymegol.

4.2 Roedd modd cynnal gwerthusiad ansoddol, hydredol diolch i gysondeb y fethodoleg yn y camau ffurfiannol a chyfunol a'r ffaith fod yr un cyfranogwyr gwerthuso wedi'u cynnwys os yn bosibl. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gweithgareddau gwerthuso yn y camau ffurfiannol a chyfunol.

[9] Gweler Atodiad 2 o'r adroddiad gwerthuso ffurfiannol i weld y model rhesymegol ar gyfer yr Hyb.

**Tabl 2: Crynodeb o weithgarwch gwerthuso yn y camau ffurfiannol a chyfunol**

| Gweithgaredd Gwerthuso | Sampl ffurfiannol | Sampl gyfunol |
|---|---|---|
| **Cyfweliadau wyneb yn wyneb manwl gyda staff yr Hyb** | 8 | 14 |
| **Cyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff addysg, gweithwyr iechyd cymunedol a swyddogion yr heddlu** | 16 | 17 |
| **Astudiaethau Achos yr Ymgynghoriad[10] (gan gynnwys grwpiau ffocws amlasiantaeth a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc sydd wedi bod ar goll a'u rhieni/gofalwyr)** | 8 | 7 (roedd 2 o'r rhain yn astudiaethau achos yn y cam ffurfiannol hefyd) |
| **Astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau[11]. Templedi wedi'u cwblhau gan staff yr Hyb yn ymwneud ag achosion penodol o blant sydd ar goll. (Roedd y sampl yn wahanol i'r plant y cwblhawyd astudiaethau achos yr ymgynghoriad ar eu cyfer, ac roedd yn cynnwys achosion â chanlyniadau cadarnhaol, cymysg a negyddol yn fwriadol)** | 8 | 8 |
| **Adolygu dogfennau a data bwrdd gwaith[12]** | • Data'r Fframwaith Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll (MIRAF)<br>• Adroddiadau chwarterol Llamau<br>• Protocolau a chanllawiau<br>• Data ar hyfforddiant a ddarparwyd<br>• Staff yr Hyb<br>• Gwybodaeth ariannol yr Hyb<br>• Cofnodion cyfarfodydd yr Hyb ac adroddiadau camau gweithredu ac uchafbwyntiau | • Adroddiadau chwarterol Llamau<br>• Protocolau a chanllawiau newydd neu wedi'u diweddaru<br>• Data ar hyfforddiant a ddarparwyd<br>• Staff yr Hyb<br>• Data Dim Camau Pellach[13] |

[10] Gellir gweld y rhain yn Atodiad A. Roedd dwy o saith astudiaeth achos yr ymgynghoriad yn astudiaethau achos dilynol yn ymwneud â phobl ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad ffurfiannol. Gofynnwyd am eu safbwyntiau nhw, ynghyd â safbwyntiau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, er mwyn nodi unrhyw newidiadau i effaith yr Hyb arnynt ers mis Ebrill 2015.

[11] Mae astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ddull gwerthuso arloesol wedi'u cynllunio gan Cordis Bright sy'n nodi cyd-destun, ymyraethau a chynnydd yn erbyn canlyniadau arfaethedig.

[12] Mae yna wahaniaethau rhwng y dogfennau a adolygwyd yn y camau ffurfiannol a chyfunol gan fod hyn yn seiliedig ar y dogfennau a gafodd Cordis Bright gan yr Hyb.

[13] Mae data Dim Camau Pellach yn nodi nifer y plant y penderfynwyd nad oedd angen cwblhau MIRAF ar eu cyfer a'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

### Sicrhai bod cyfranogwyr y gwaith ymchwil yn aros yn anhysbys

4.3 Dylid nodi bod enwau cyfranogwyr y gwaith ymchwil, gan gynnwys plant a theuluoedd, wedi'u newid gydol yr adroddiad hwn; mae unrhyw enwau a nodir yn yr adroddiad hwn yn ffugenwau.

## 5. Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad ffurfiannol

5.1 Mae Er mwyn gweithredu a chyflawni rhai o'r amcanion hyn, mae'n bwysig cydnabod y bydd angen adnoddau a chymorth ychwanegol ar y Hyb o bosibl gan bartneriaid fel bwrdd yr Hyb, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Yn yr achosion hyn, dylai'r Hyb ofyn am gyllid ychwanegol ac ymgysylltu â phartneriaid i ofyn am gymorth lle bo hynny'n briodol.

5.2

5.3 Tabl 3 yn crynhoi cynnydd yr Hyb wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso ffurfiannol.

5.4 Cynhaliwyd y gwerthusiad cyfunol chwe mis ar ôl y cam ffurfiannol, gan arwain at gyfnod cyfyngedig i fynd i'r afael â'r deuddeg argymhelliad a amlinellir isod. O ganlyniad, mae rhai o'r argymhellion yn parhau i fod yn feysydd posibl i'w datblygu er mwyn cryfhau gweithrediad yr Hyb a'i helpu i gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a dangos ei fod wedi gwneud hynny.

5.5 Er mwyn gweithredu a chyflawni rhai o'r amcanion hyn, mae'n bwysig cydnabod y bydd angen adnoddau a chymorth ychwanegol ar y Hyb o bosibl gan bartneriaid fel bwrdd yr Hyb, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Yn yr achosion hyn, dylai'r Hyb ofyn am gyllid ychwanegol ac ymgysylltu â phartneriaid i ofyn am gymorth lle bo hynny'n briodol.

**Tabl 3: Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion**

| Argymhellion y Cam Ffurfiannol | Sylw |
|---|---|
| **1. Argymhelliad 1: Dylai'r Hyb ddatblygu cynllun strategol. Yn arbennig, rydym yn argymell:**<br><br>**• Dylai'r Hyb ddatblygu ei 'Gylch Gorchwyl' i gynhyrchu nodau ac amcanion mwy manwl a chyson er mwyn sicrhau bod holl staff yr Hyb a'r rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn perthynas â'r Hyb yn deall beth mae'n ceisio ei gyflawni ac felly'n gallu gweithio tuag at yr un nodau.**<br><br>**• Dylai hyn gael ei gynnwys mewn cynllun strategol, y gellid ei seilio ar y model rhesymegol (a amlinellir yn yr adroddiad hwn) ar gyfer y prosiect, sydd hefyd yn cynnwys nodau ac amcanion CAMPUS[14] ar gyfer y gweithgareddau, allbynnau, effeithiau a chanlyniadau mae'r Hyb yn ceisio eu cyflawni, ynghyd â mesurau a ddefnyddir i fesur cynnydd a llwyddiant.** | Nododd y rhan fwyaf o staff yr Hyb eu bod yn gweithio yn unol â dogfen protocol Gwent. Fodd bynnag, byddai datblygu cynllun strategol CAMPUS cyffredin sy'n cynnwys nodau ac amcanion a'r cylch gorchwyl diweddaraf yn parhau i fod yn fanteisiol i'r Hyb. |
| **2. Fel rhan o broses cynllunio strategol, dylai'r Hyb asesu i ba raddau y mae ei gydbwysedd o weithgareddau yn cyd-fynd â'i nodau ac amcanion.** | Mae proses cynllunio strategol yn un o'r meysydd allweddol i'w datblygu ar gyfer yr Hyb. Gweler uchod. |
| **3. Dylai'r Hyb asesu a yw lleihau achosion o fasnachu plant sy'n mynd ar goll yn un o'r canlyniadau bwriedig ac, os ydyw, mesur i ba raddau y cyflawnir hyn drwy ei waith monitro a rheoli perfformiad.** | Nododd yr Hyb ei fod wedi cynnwys lleihau masnachu mewn plant sy'n mynd ar goll yn un o'i ganlyniadau arfaethedig fel rhan o gynllun peilot 10 wythnos. Nododd y rhan fwyaf o staff yr Hyb, ac un rhanddeiliad, fod yr Hyb wedi rhoi rhagor o bwyslais ar nodi masnachu mewn plant yn ystod y cam cyfunol, er enghraifft, drwy gynnwys y pwnc yn yr hyfforddiant a ddarparwyd gan yr Hyb.<br><br>Nid yw dogfennau'r Hyb yn cyfeirio yn ffurfiol at leihau masnachu mewn plant fel un o ganlyniadau arfaethedig yr |

[14] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

| Argymhellion y Cam Ffurfiannol | Sylw |
|---|---|
| | Hyb. Nid yw'r canlyniad hwn yn cael ei fesur ar hyn o bryd drwy waith monitro a rheoli perfformiad yr Hyb chwaith. Os yw'r Hyb yn penderfynu bod lleihau masnachu mewn plant yn un o'i ganlyniadau arfaethedig, dylai nodi hynny mewn strategaeth a'i fonitro yn erbyn targedau CAMPUS. |
| **4. Dylid ystyried tystiolaeth o amrywiadau yn effaith yr Hyb ar sail lefel yr angen (er enghraifft, dywedodd y staff fod yr Hyb yn fwy effeithiol wrth weithio gyda phlant sydd mewn llai o berygl) wrth fynd ati i gynllunio'n strategol. Bydd hyn yn helpu'r Hyb i asesu i ba raddau bydd yr amrywiadau hyn yn galluogi'r Hyb i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach, h.y. os nad yw'r Hyb yn cael cymaint o lwyddiant gyda phlant risg uchel gallai hyn effeithio ar y gwaith cynllunio.** | Nododd y rhan fwyaf o staff yr Hyb a lleiafrif o randdeiliaid fod rhywfaint o wahaniaeth rhwng effaith yr Hyb ar sail lefel angen, yn enwedig mewn perthynas â phlant risg uchel a risg isel, ac mae angen ystyried y sylw hwn fel rhan o broses cynllunio strategol. |
| **5. Dylai'r Hyb gynhyrchu protocolau sylfaenol yn y meysydd canlynol er mwyn sicrhau ymarfer cyson a thryloyw:**<br><br>**• Proses MIRAF ac asesu risg (yn cynnwys diffiniadau o lefelau risg fel 'catastroffig' neu 'ansylweddol' gydag enghreifftiau, fel yr awgrymwyd gan ddadansoddiad y MIRAF)**<br><br>**• Proses ôl-drafod a gwneud penderfyniadau, yn cynnwys bod yn eglur ynghylch unrhyw feini prawf cymhwysedd; proses gyfryngu; gwaith camfanteisio'n rhywiol ar blant; ac ymyriadau eraill a ddarperir gan yr Hyb/ar ran yr Hyb - yn ddelfrydol o fewn yr amserlenni a'r prosesau sicrhau ansawdd mewnol.** | Mae canllaw MIRAF sy'n cynnwys diffiniadau o lefelau asesu risg wedi'i ddatblygu. Mae hyn yn golygu bod modd cwblhau'r MIRAF mewn ffordd gyson, gan arwain at ddealltwriaeth gyffredin o'r ymateb priodol i blant sy'n mynd ar goll. Mae staff mwy diweddar wedi nodi bod y canllaw wedi bod yn ddefnyddiol wrth gwblhau asesiadau MIRAF.<br><br>Mae gan yr Hyb bolisi ar y broses ôl-drafod sy'n cynnwys y diben, y model cymorth sy'n cael ei ddarparu ar sail anghenion, ac amlinelliad o'r adroddiad ôl-drafod.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r prosesau penderfynu a'r meini prawf cymhwysedd, gydag amserlenni a systemau sicrhau ansawdd, ar gyfer y broses ôl-drafod neu ymyraethau eraill yr Hyb, wedi'u cofnodi eto. Mae hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu o hyd i'r Hyb. |
| **6. Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu'r MIRAF drwy barhau i sicrhau bod (a) pob gweithiwr proffesiynol a allai elwa ar neu gyfrannu ati, yn gwybod amdani a sut i'w defnyddio, (b) sicrhau bod cofnodion y MIRAF yn cael eu cadw mor gyfredol â phosibl, (c) sicrhau na ysgrifennir dros ddata matrics asesu risg y MIRAF er mwyn gallu monitro ac ystyried newid dros amser, (d) sicrhau bod rhesymau'n cael eu rhoi i egluro newidiadau i asesiadau risg, ac (e) bod problemau technegol yn cael eu hadolygu a'u datrys lle bo'n bosibl.** | Er nad yw'r system MIRAF wedi'i datblygu oherwydd cyfyngiadau ariannol, mae asesiadau risg blaenorol yn cael eu cofnodi yn adran nodiadau pob MIRAF erbyn hyn er mwyn dangos newid dros amser. Fodd bynnag, argymhellir bod angen datblygu'r dull hwn ymhellach er mwyn monitro data cyfanredol.<br><br>Mae'r Hyb wedi datblygu ymgysylltiad ehangach â'r MIRAF drwy ddarparu rhybuddion e-bost 'ping' i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud ag achosion o blant sydd ar goll sy'n hysbys iddynt. Nod y rhybuddion yw ysgogi adolygiad o'r MIRAF. |
| **7. Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu ei ddarpariaeth hyfforddiant.**<br><br>**• Dylai'r Hyb sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol a gofalwr (yn cynnwys cartrefi preswyl a hosteli) ddealltwriaeth dda o Brotocol Gwent ac, yn arbennig, gategorïau 'absennol' a 'coll' a phryd i'w defnyddio'n briodol. Efallai y bydd angen darparu mwy o hyfforddiant.**<br><br>**• Dylai'r Hyb sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn deall beth yw rôl yr Hyb a'u rôl mewn perthynas â'r Hyb, a fydd yn ei dro yn helpu i osgoi dyblygu gwaith. Gellid gwneud hyn drwy hyfforddiant parhaus a chynyddol a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud mwy o ddefnydd o'r MIRAF lle bo'n briodol.** | Mae'r Hyb wedi parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth hyfforddiant, gan ddarparu hyfforddiant i 662 o weithwyr proffesiynol o heddlu Gwent, y gwasanaethau cymdeithasol a staff cartrefi preswyl rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2015.<br><br>Mae'r Hyb wrthi'n datblygu fforymau gweithwyr preswyl a gofalwyr maeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o rôl yr Hyb a'u swyddogaeth nhw mewn perthynas â'r Hyb.<br><br>Mae'r Hyb wedi cyflwyno system fonitro newydd i gofnodi nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu hyfforddiant ac i ba asiantaeth y maent yn perthyn. Yn ogystal, mae'r Hyb wedi datblygu dulliau o gasglu adborth gan y rhai sy'n mynychu hyfforddiant drwy ddefnyddio ffurflenni gwerthuso. |

| Argymhellion y Cam Ffurfiannol | Sylw |
|---|---|
| **• Dylai'r Hyb barhau i ddarparu hyfforddiant i gynifer o weithwyr proffesiynol a gofalwyr â phosibl, ac os oes modd, dylai ystyried datblygu a darparu hyfforddiant diweddaru. Yn y dyfodol, dylai'r Hyb gasglu ffigurau mwy manwl ar y canlynol: nifer y staff o'r holl asiantaethau sydd wedi mynychu hyfforddiant a nifer staff unedau preswyl a hosteli sydd wedi mynychu hyfforddiant.** | Hefyd, mae'r Hyb wedi cyflwyno targed CAMPUS i hyfforddi 527 o yrwyr tacsi cofrestredig yng Nghasnewydd erbyn mis Chwefror 2016, a bydd yn monitro allbynnau yn erbyn y targed hwn. |
| **8. Gall yr Hyb ddatblygu ei waith fel ffynhonnell atal sylfaenol. Yn y cyswllt hwn:**<br><br>**• Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu ei waith 'Addysg Gymheiriaid' a mynd ati i ddarparu gweithdai ar gyfer plant a theuluoedd a chyfrannu at raglenni addysg ysgolion. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i ddatblygu ei rôl fel ffynhonnell atal sylfaenol.**<br><br>**• Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu ei gynlluniau a'i ddarpariaeth ar gyfer gwaith cyfranogiad ieuenctid, a datblygu cynlluniau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer plant ysgol a gweithdai ar gyfer rhieni a gofalwyr. Bydd hyn yn helpu'r Hyb i ddatblygu ei rôl fel ffynhonnell atal sylfaenol a'i helpu i ymgysylltu â'r gynulleidfa darged, sef plant sydd mewn perygl o fynd ar goll am y tro cyntaf.** | Mae'r Hyb wedi penderfynu peidio â recriwtio plant sydd â phrofiad o fynd ar goll fel 'mentoriaid cymheiriaid' oherwydd yr effaith a'r peryglon emosiynol ac ymddygiadol negyddol posibl.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Hyb yn bwriadu hyfforddi plant ysgol sydd wedi mynychu ei weithdai[15]. Hefyd, mae'r Hyb yn bwriadu mynychu nosweithiau rhieni er mwyn hysbysu rhieni am y risgiau sy'n gysylltiedig â mynd ar goll.<br><br>Mae'r Hyb yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfranogiad ieuenctid. Mae un strategaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fynd ar goll yn y gwaith o wneud ffilm fer ar gyfer plant ysgol[16]. |
| **9. Gall Llamau a'r Hyb barhau i wella darpariaeth y gwasanaeth ôl-drafod a'r ffordd mae'n monitro'r gwaith hwn drwy'r canlynol:**<br><br>**• Dylai'r Hyb adolygu gallu'r gwasanaeth ôl-drafod i sicrhau bod ganddo'r gallu i fodloni galw.**<br><br>**• Dylai'r Hyb a Llamau ystyried asesu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfarfodydd ôl-drafod o gymharu â chyfanswm y plant sydd wedi mynd ar goll yng Ngwent, sy'n gymwys ar gyfer cyfarfodydd ôl-drafod, yn yr un cyfnod, yn ogystal â chymharu â nifer y rhai sydd wedi'u hatgyfeirio i'r gwasanaeth. Bydd hyn yn rhoi darlun sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth o ddefnydd y gwasanaeth hwn ymysg ei gynulleidfa darged. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai Llamau'n cadw cofnod, ac yn adrodd ar y rhesymau pam nad yw rhai plant yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth ôl-drafod. Bydd y dull monitro hwn yn helpu'r Hyb i ddeall i ba raddau mae wedi ymgysylltu â'i gynulleidfa darged ehangach o blant sy'n mynd ar goll ac asesu darpariaeth yn unol â hynny. Dylai'r Hyb a/neu Llamau barhau i gofnodi union nifer y cyfweliadau cyfryngu a ddarperir er mwyn mesur lefel yr allbwn.**<br><br>**• Hefyd, gallai'r Hyb a/neu Llamau ddatblygu eu** | Bydd y gwaith o bennu a monitro yn erbyn targedau CAMPUS ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod yn helpu i ddangos a yw'n gallu ateb y galw. Os nad yw'n gallu gwneud hynny, gellid ceisio sicrhau adnoddau ychwanegol i gynyddu ei allu.<br><br>Mae'r Hyb wedi creu cronfa ddata sy'n nodi'r holl benderfyniadau Dim Camau Gweithredu Pellach. Dylai'r Hyb gymharu hyn â nifer y plant y mae MIRAF yn cael ei llunio ar eu cyfer a nifer y plant sy'n derbyn sesiwn ôl-drafod. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i asesu faint o'i gynulleidfa darged sylfaenol sy'n manteisio ar y gwasanaeth ôl-drafod, sy'n parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ar gyfer yr Hyb.<br><br>Nod yr Hyb yw cynnig sesiwn ôl-drafod i bob plentyn sydd â MIRAF. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw Llamau yn cofnodi'r rhesymau pam nad yw rhai plant yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth ôl-drafod.<br><br>Erbyn hyn, mae adroddiadau chwarterol Llamau yn cofnodi cyfanswm y sesiynau sy'n cael eu darparu, sy'n ddefnyddiol wrth nodi lefel yr allbwn. Gellid gwella adroddiadau Llamau drwy gofnodi cyfanswm y sesiynau ôl-drafod a ddarparwyd fesul plentyn.<br><br>Rydym yn deall bod yr Hyb wedi treialu sawl dull |

[15] Os nad yw'n gwneud hynny eisoes, yn y dyfodol byddai'n fanteisiol i'r Hyb egluro a chofnodi cynnwys yr hyfforddiant hwn a'r canlyniadau arfaethedig drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
[16] Os nad yw'n gwneud hynny eisoes, yn y dyfodol byddai'n fanteisiol i'r Hyb egluro a chofnodi canlyniadau arfaethedig y broses hon o wneud ffilmiau.

| Argymhellion y Cam Ffurfiannol | Sylw |
|---|---|
| **dulliau o gael adborth gan ddefnyddwyr yn unol â thargedau CAMPUS er mwyn asesu a yw'r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu wedi diwallu anghenion y rhai y mae'n gweithio â nhw yn effeithiol ac a yw atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn briodol.**<br><br>**• Gallai adroddiadau Llamau ddadansoddi cyfanswm y sesiynau ôl-drafod a ddarparwyd fesul plentyn er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am ddosbarthiad y gwasanaeth ôl-drafod ymysg defnyddwyr gwasanaethau.** | gwahanol o gasglu adborth gan blant a phobl ifanc, ond nid ydynt wedi bod yn gwbl lwyddiannus. Ar hyn o bryd mae'r Hyb yn cyflwyno arolwg i ddisgyblion blwyddyn 11 yng Ngwent, ac mae'n gobeithio dysgu am effaith y gwasanaeth ôl-drafod o'r ymatebion i'r arolwg. Dylid monitro effeithiolrwydd y dull hwn ac ystyried mabwysiadu dulliau amgen os nad yw'n effeithiol. |
| **10. Dylai'r Hyb ystyried datblygu proses fwy cadarn i oruchwylio rheolaeth a sicrhau ansawdd o fewn y tîm ei hun nad yw'n dibynnu ar un person allweddol, mewn perthynas â chwblhau a sicrhau cywirdeb adroddiadau MIRAF er enghraifft. Gellid gwneud hyn drwy gymryd hapsampl neu ddatblygu a gweithredu dulliau adborth gan randdeiliaid i ddangos effaith ei waith ar wella ymarfer. Gallai hyn gynnwys cael gwybodaeth gan randdeiliaid sydd mewn cysylltiad â'r Hyb. Gallai adborth gynnwys: (a) nodweddion cefndir y rhanddeiliaid, (b) pam eu bod mewn cysylltiad â'r Hyb, (c) sut wnaeth yr Hyb helpu, (d) pa mor fodlon oeddynt gyda'r Hyb, a (e) sut gallai'r Hyb wella yn y dyfodol.** | Mae'r broses o oruchwylio rheolaeth achosion a sicrhau ansawdd sy'n dibynnu ar un aelod o staff allweddol yn parhau i fod ar waith. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu o hyd i'r Hyb. |
| **11. Er mwyn datblygu prosesau monitro a rheoli perfformiad ledled gwaith yr Hyb argymhellwn y dylai'r Hyb a Llamau wneud y canlynol wrth fonitro ac adrodd:**<br><br>**• casglu a dadansoddi data'n gyson dros amser**<br><br>**• darparu gwybodaeth fethodolegol gyda data monitro**<br><br>**• casglu a dadansoddi'r data mewn perthynas â chanlyniadau bwriedig, fel dadansoddi niferoedd plant coll o ran y rhai sydd â chynllun amddiffyn plant neu gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ôl-drafod sy'n berthnasol i'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni.**<br><br>**• adrodd ar ddata monitro a'i gymharu â thargedau CAMPUS i asesu a dangos cynnydd a llwyddiant.** | Mae'r Hyb wedi datblygu system fonitro sy'n cofnodi cyfanswm yr achosion Dim Camau Gweithredu Pellach yn gyson dros amser.<br><br>Nid yw gwybodaeth am fethodoleg yn cael ei darparu ar hyn o bryd gyda data monitro. Mae'r Hyb yn gobeithio datblygu ei waith casglu a dadansoddi data yn ymwneud â chanlyniadau arfaethedig ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Mae datblygu system adrodd sy'n cymharu data monitro yn erbyn targedau CAMPUS yn faes i'w ystyried o hyd i'r Hyb. |
| **12. Er mwyn dangos gwerth am arian a chostau a buddion dylai'r Hyb geisio casglu data pendant a meintiol ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer: a) plant penodol, ac yn ddelfrydol b) yr holl blant sy'n derbyn cymorth ganddo.** | Mae hwn yn faes i'w ddatblygu i'r Hyb ar hyn o bryd. |

## 6. Amcanion yr Hyb

6.1 Ar sail yr adolygiad o ddogfennau ac ymateb y rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid yr Hyb, ymddengys nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod i nodau ac amcanion yr Hyb ers y gwerthusiad ffurfiannol.

6.2 Yn unol â'r cam ffurfiannol, nododd staff a rhanddeiliaid yr Hyb mai gwella bywydau a chanlyniadau plant sy'n mynd ar goll, diogelu plant a lleihau nifer yr achosion o blant sy'n mynd ar goll yw prif amcanion yr Hyb. Mae hyn yn cyd-fynd â damcaniaeth newid a model rhesymegol arfaethedig yr Hyb (gweler Atodiad 2 o'r adroddiad ffurfiannol).

6.3 Er nad oedd unrhyw aelodau staff neu randdeiliaid wedi nodi newidiadau i nodau ac amcanion presennol yr Hyb, nododd lleiafrif o randdeiliaid a staff nodau ac amcanion newydd yr Hyb a oedd wedi'u pennu ers mis Mai 2015. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag ehangu cylch gwaith yr Hyb. Nodwyd y nodau newydd canlynol:

- nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n mynd ar goll a masnachu mewn plant sy'n mynd ar goll, a lleihau'r perygl o hyn;
- nodi'r rhesymau pam y mae plant yn mynd ar goll ac unrhyw batrymau perthnasol.

6.4 Ers y gwerthusiad ffurfiannol, nid oes unrhyw ddogfennau newydd wedi'u llunio yn ymwneud â nodau arfaethedig, ac yn y cyswllt hwn nid yw'r uchod wedi'u cofnodi fel nodau'r Hyb. Nododd staff yr Hyb fod yr amcanion o nodi a lleihau achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith yr Hyb am gyfnod peilot 10 wythnos yn unig.

6.5 Cytunodd pob aelod o staff a'r rhan fwyaf o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld fod y nodau ac amcanion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, gan gynnwys y rhai uchod, yn briodol i'r Hyb. Mae'r rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid yn parhau i gefnogi nodau ac amcanion yr Hyb.

## 7. Gwaith yr Hyb

7.1 Mae prosesau a gweithgareddau allweddol yr Hyb a nodwyd yn y gwerthusiad ffurfiannol yn parhau i fod wrth wraidd gwaith yr Hyb, ac maent yn cyd-fynd yn bennaf â chynllun gwaith yr Hyb yn ei ddamcaniaeth newid. Yn benodol, mae'r Hyb yn ceisio sicrhau ei effeithiau arfaethedig drwy'r pum prif faes gwaith canlynol:

- Gwella mynediad ar gyfer ymarferwyr i wybodaeth amlasiantaethol am blant sy'n mynd ar goll. Mae'r Hyb yn ceisio sicrhau hyn drwy'r MIRAF.
- Gwella ansawdd a chysondeb data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan blant sy'n mynd ar goll. Mae'r Hyb yn ceisio sicrhau hyn drwy gyswllt ôl-drafod a chyfryngu â phlant sy'n mynd ar goll.
- Gwella cyfraniad plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'r cymorth sy'n cael ei roi iddyn nhw a/neu eu teuluoedd. Mae'r Hyb yn ceisio sicrhau hyn drwy waith cyfryngu, eirioli ac ôl-drafod.
- Gwella gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll. Mae'r Hyb yn ceisio sicrhau hyn drwy ddarparu hyfforddiant yn bennaf.
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth plant, teuluoedd a gofalwyr. Mae'r Hyb yn ceisio sicrhau hyn drwy'r gwasanaeth cyfryngu ac ôl-drafod, a thrwy fforymau gofalwyr.

7.2 Y gweithgareddau a nodwyd amlaf gan staff a rhanddeiliaid yr Hyb oedd cwblhau'r MIRAF a darparu sesiynau ôl-drafod. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a rhanddeiliaid o'r farn mai defnyddio'r MIRAF yw'r gweithgaredd *'mwyaf gwerthfawr'*, yn enwedig ar gyfer hwyluso rhannu gwybodaeth a darparu *'asesiadau risg cynhwysfawr a chyfoes'*. Roedd agwedd gadarnhaol tuag at sesiynau ôl-drafod o hyd, yn enwedig fel ffordd o *'ymgysylltu â phobl ifanc y mae'n anodd ymgysylltu â nhw'*. Asesir llwyddiant yr Hyb o ran gweithredu'r meysydd gwaith hyn a'r effeithiau a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt yng ngweddill yr adroddiad hwn.

7.3 Cyfeiriodd y staff a'r rhanddeiliaid at rai newidiadau i waith yr Hyb ers y gwerthusiad ffurfiannol. Nododd rhanddeiliaid a staff fod y newidiadau canlynol i ddulliau gweithredu'r Hyb wedi llwyddo:

- darparu rhybuddion e-bost i'r gwasanaethau cymdeithasol gyda'r newyddion diweddaraf am achosion o blant sydd ar goll sy'n hysbys iddynt. Yn ôl un aelod o staff, mae'r system newydd hon yn *'ysgogi adolygiad o'r MIRAF gan weithiwr cymdeithasol plentyn'*;
- gallu gweinyddol ychwanegol, drwy aelod o staff rhan-amser dros dro, sy'n galluogi'r Hyb i ddatblygu systemau monitro a rheoli perfformiad;
- canolbwyntio mwy ar achosion o fasnachu mewn plant, sy'n golygu bod staff yr Hyb yn gwneud atgyfeiriadau i Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) y Swyddfa Gartref er mwyn ceisio adnabod a chefnogi dioddefwyr masnachu mewn plant[17];
- penodi swyddog ymateb yr heddlu penodedig ar gyfer plant sydd ar goll am gyfnod prawf o 10 wythnos o fis Medi 2015 ymlaen yn Ardal Heddlu Lleol Casnewydd. Roedd y swyddog yn gyfrifol am dderbyn adroddiadau am blant a oedd ar goll, cynnal ymchwiliadau ac ymateb. Nododd sawl rhanddeiliad ac aelod o staff fod y swydd hon yn 'fuddiol', a nodwyd y canlyniadau cadarnhaol canlynol yng nghynnig yr Hyb am estyniad i'r swydd hon[18]:
  - gostyngiad yn nifer yr achosion o blant yn mynd ar goll;
  - gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau brys o blant coll;
  - gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o blant sy'n mynd ar goll yn rheolaidd;

[17] Cafodd Cordis Bright wybod gan yr Hyb fod cynnwys y gwaith o fynd i'r afael â masnachu mewn plant yng nghylch gwaith yr Hyb yn rhan o gynllun peilot 10 wythnos.
[18] Nid yw'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd gan yr Hyb yn ei gynnig am estyniad i'r swydd wedi'u dilysu'n annibynnol gan Cordis Bright gan na ddarparwyd y data i gefnogi'r casgliadau hyn.

- derbyn gwybodaeth o ansawdd gwell, sy’n ddefnyddiol yn benodol i leihau a chanfod achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant;
- adborth cadarnhaol gan staff preswyl ynglŷn â pha mor fuddiol iddynt yw unigolyn cyswllt dynodedig yn ystod achosion o blant yn mynd ar goll.

Fodd bynnag, oherwydd adnoddau cyfyngedig, ar ôl y cyfnod prawf 10 wythnos, daeth swydd swyddog yr heddlu dynodedig ar gyfer plant coll i ben.

- canolbwyntio’n fwy ar achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant drwy greu swydd newydd gweithiwr cymdeithasol camfanteisio’n rhywiol ar blant am gyfnod prawf ochr yn ochr â dau swyddog yr heddlu arbenigol sydd wedi’u hyfforddi yn y maes hwn. Yn ôl staff yr Hyb, mae hyn wedi arwain at gasglu rhagor o wybodaeth ac arestio mwy o droseddwyr fel rhan o waith Heddlu Gwent ym maes camfanteisio’n rhywiol ar blant[19].
- datblygu fforwm ar gyfer staff darparwyr preswyl sy’n ‘dwyn ynghyd yr holl ddarparwyr preswyl ledled yr ardal’ (papur briffio’r Bwrdd, Ionawr 2016: 2) i rannu ymarfer a datrys problemau. Mae’r Hyb yn bwriadu cynnal yr un broses gyda gofalwyr maeth. Y bwriad yw cynyddu ymwybyddiaeth o’r Hyb a chynorthwyo darparwyr preswyl i roi gwybod am blant coll mewn ffordd briodol.

7.4 Mae’r Hyb wedi penderfynu peidio â recriwtio plant sydd â phrofiad o fynd ar goll fel ‘mentoriaid cymheiriaid’ oherwydd yr effaith a’r peryglon emosiynol ac ymddygiadol negyddol posibl. Fodd bynnag, nododd staff yr Hyb fod cynlluniau ar waith i ddatblygu eu hymyrraeth sylfaenol â phlant a phobl ifanc ac i fynychu nosweithiau rhieni mewn ysgolion er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am y peryglon sy’n gysylltiedig â phlant coll.

**Ailadrodd Model yr Hyb**

7.5 Mae model yr Hyb, sy’n cynnwys pum ardal Awdurdod Lleol ac un Heddlu rhanbarthol, yn wasanaeth arloesol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n mynd ar goll a gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant sy’n mynd ar goll. Mae model amlasiantaeth wedi’i gydleoli’r Hyb yn defnyddio system brysbennu ar gyfer pob adroddiad am blentyn coll ac yn dilyn proses penderfynu ac asesu risg ar y cyd.

7.6 Un o nodweddion allweddol yr Hyb yw’r ffaith ei fod yn cydleoli asiantaethau’r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, Llamau a Barnados/SERAF. Yn ôl y Prosiect Gweithio a Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol, un o’r rhesymau am wella canlyniadau i blant a theuluoedd yw *‘co-located Hub of agencies enabling real time information sharing, decision making and communication’* (y Swyddfa Gartref, 2014: 6).

7.7 Mae adroddiad *Dysgu Newydd Hybiau Diogelu Amlasiantaethol* (ESVG, 2015) a’r *Prosiect Gweithio a Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol* (y Swyddfa Gartref, 2014) yn nodi arferion dau ym maes gwaith amlasiantaethol. Mae’r ffactorau arferion da hyn wedi’u cymharu â nodweddion allweddol cynllun yr Hyb yn Nhabl 5. Mae adran naw o’r adroddiad hwn yn nodi elfennau a allai gael eu gweithredu’n fwy effeithiol.

[19] Ni all Cordis Bright ddilysu hyn yn annibynnol gan na ddarparwyd tystiolaeth.

**Tabl 4: Cymharu canllawiau arferion da â chynllun yr Hyb**

| Canllawiau Arferion Da | Cynllun yr Hyb |
|---|---|
| **Gweithredu fel un man cyswllt.** | Mae'r Hyb yn derbyn pob adroddiad ar blant coll. |
| **Hwyluso proses o ymchwilio'n drylwyr i bob achos er mwyn nodi peryglon posibl.** | Mae'r Hyb yn casglu gwybodaeth gan bob asiantaeth, gan gynnwys ym meysydd iechyd, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, a gan blant a phobl ifanc yn uniongyrchol drwy ei wasanaeth ôl-drafod. |
| **Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, gyda chymorth protocol rhannu gwybodaeth ar y cyd.** | Mae'r Hyb yn rhannu gwybodaeth â phob asiantaeth, gan ddilyn protocol Gwent. |
| **Brysbennu atgyfeiriadau, fel y dangosir yn y defnydd o sgoriau risg y cytunir arnynt.** | Mae'r Hyb yn defnyddio adnodd asesu risg cyffredin, MIRAF, ar system TG integredig sydd ar gael i'r holl asiantaethau perthnasol. Mae'r Hyb wedi datblygu canllawiau MIRAF sy'n cynnwys sgoriau risg clir er mwyn asesu risgiau a brysbennu atgyfeiriadau mewn ffordd gyson. |
| **Hwyluso ymyrraeth gynnar er mwyn osgoi'r angen am ymyraethau dwysach yn y dyfodol.** | Mae'r Hyb yn ystyried atgyfeirio pob plentyn y nodir ei fod ar goll neu'n absennol i'r gwasanaeth ôl-drafod,[20] ac mae cymhwysedd yn dibynnu ar systemau ymchwilio ac ar nodi achosion lle mae pryder neu berygl hysbys neu'r posibilrwydd o niwed. Felly, mae'r Hyb yn gallu nodi a gweithredu mewn achosion o blant yn mynd ar goll yn fuan er mwyn sicrhau'r nad yw'r sefyllfa'n gwaethygu. Mae'r Hyb yn datblygu ffrwd gwaith ymyrraeth sylfaenol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd ar goll am y tro cyntaf. |
| **Rheoli achosion drwy ymyraethau cydgysylltiedig.** | Mae'r Hyb yn hwyluso gwaith amlasiantaeth drwy rannu gwybodaeth, ac yn aml mae'n cydgysylltu neu'n cyfrannu at gyfarfodydd strategaeth a chynllunio gofal. |

7.8 Mae hyn yn awgrymu bod elfennau canlynol model yr Hyb, sydd wedi'u nodi fel arferion da, yn gallu cael eu hefelychu a'u gwella o bosibl mewn ardaloedd eraill:

- cydleoli asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd;
- rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gyda chymorth protocol tebyg ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth yr heddlu;
- adnodd asesu risg cyffredin a system TG integredig, er enghraifft, system ar-lein MIRAF sydd ar gael i bob asiantaeth;
- gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr;
- canolbwyntio ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant [21]: gan gynnwys nodi peryglon drwy'r SERAF, atgyfeiriadau NRM, gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant a hyfforddiant a dargedir;

[20] Adroddiad briffio'r Bwrdd Rhagfyr 2014
[21] Nododd yr Hyb mai meysydd i ganolbwyntio arnynt fel rhan o gynllun peilot deg wythnos oedd y rhain.

- darparu hyfforddiant i ymarferwyr perthnasol, fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd ac addysg, gweithwyr preswyl a gofalwyr maeth.

7.9 Er mwyn efelychu a datblygu'r model, mae angen cydweithrediad strategol pob asiantaeth berthnasol a phob bwrdd diogelu, yn enwedig yr heddlu a'r awdurdodau lleol.

7.10 Mae'n anodd efelychu rhai elfennau o fodel yr Hyb oherwydd ar hyn o bryd mae'r Hyb yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad ei staff, yn enwedig o safbwynt gwneud penderfyniadau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer darpariaeth ôl-drafod, sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, ac nid oes gweithdrefnau neu systemau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, mae datblygu canllawiau MIRAF wedi gwella'r posibilrwydd o efelychu'r Hyb, yn enwedig o ran dangos sgoriau risg y cytunir arnynt mewn ffordd glir.

7.11 Er mwyn gwella'r posibilrwydd o efelychu model yr Hyb, argymhellir y dylai'r Hyb ddatblygu cynllun strategol gyda 'Chylch Gorchwyl' wedi'u diweddaru er mwyn sicrhau bod yr holl staff a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r Hyb yn deall yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ac felly'n gallu gweithio tuag at yr un nodau (i gael rhagor o wybodaeth gweler yr argymhellion yn y Crynodeb Gweithredol).

## 8. Monitro a Rheoli Perfformiad

8.1 Mae'r Hyb yn parhau i ddibynnu'n bennaf ar adroddiad chwarterol ôl-drafod a chyfryngu Llamau ac ar adroddiadau diweddaru ar gyfer Bwrdd y Prosiect er mwyn monitro ei berfformiad. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o Fwrdd y Prosiect rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2015[22]. O ganlyniad, nid oes modd gwneud sylw ar unrhyw gynnydd posibl ym maes adrodd.

8.2 Mae adroddiadau chwarterol Llamau yn parhau i ddarparu trosolwg o'r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu, gydag allbynnau wedi'u nodi ar gyfer nifer y sesiynau a'u manylion, atgyfeiriadau, a ffactorau gwthio a thynnu a nodwyd gan blant a phobl ifanc yn y sesiynau ôl-drafod. Mae adroddiad Llamau ar gyfer mis Ebrill i Fehefin 2015 yn cynnwys enghreifftiau o arferion da hefyd. Byddai modd gwella hyn drwy adrodd ar allbynnau yn erbyn targedau CAMPUS sydd wedi'u nodi, yn unol â chynnig yr adroddiad ffurfiannol.

8.3 Mae'r Hyb wedi datblygu a gweithredu'r dulliau monitro a rheoli perfformiad canlynol ers mis Mai 2015:

- system i gofnodi nifer yr achosion Dim Camau Pellach;
- system i gofnodi nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu hyfforddiant a'r asiantaeth y maent yn perthyn iddi. Hefyd, mae'r Hyb wedi cynllunio ffurflenni gwerthuso sy'n cael eu cwblhau gan gyfranogwyr ar ddiwedd y sesiwn hyfforddi.

8.4 Nododd y rhan fwyaf o'r staff fod y systemau monitro a rheoli perfformiad a ddefnyddir gan yr Hyb ar hyn o bryd yn effeithiol.

8.5 Nododd lleiafrif o randdeiliaid fod modd gwella'r systemau monitro a rheoli perfformiad a ddefnyddir gan yr Hyb. Er enghraifft, oherwydd nad oes modd gweld data crynswth ar yr MIRAF, roedd un rhanddeiliad yn credu ei bod *'yn anodd dangos a mesur manteision'* gan mai dim ond *'tystiolaeth anecdotaidd o lwyddiant'* sydd ar gael.

8.6 Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi cael adborth cadarnhaol gan randdeiliaid a phlant yn ymwneud â gwaith yr Hyb. Fodd bynnag, adborth anffurfiol oedd hwn yn bennaf, ar sail sgyrsiau â rhanddeiliaid unigol mewn cyfarfodydd tîm, arsylwi ar lefelau ymgysylltu plant a theuluoedd yn y broses ôl-drafod, a sylwadau i weithwyr ôl-drafod ynglŷn â chyfleoedd i leisio barn. Nododd un aelod o staff ei bod yn anodd cael adborth gan bobl ifanc ynglŷn â'u profiadau o sesiynau ôl-drafod oherwydd, yn aml iawn, '*nid ydynt yn awyddus i ddychwelyd i'r cyfnod hwnnw yn eu bywydau'*. Rydym yn deall bod yr Hyb wedi cael llwyddiant cyfyngedig wrth dreialu sawl dull gwahanol o gasglu adborth gan blant a phobl ifanc a bod yr Hyb wrthi'n cyflwyno arolwg i holl ddisgyblion 11 Gwent er mwyn ceisio dysgu am effaith y gwasanaeth ôl-drafod. Dylid monitro effeithiolrwydd y dull hwn ac ystyried mabwysiadu dulliau amgen os nad yw'n effeithiol.

8.7 Er mwyn gwella'r systemau monitro a rheoli perfformiad sy'n cael eu defnyddio gan yr Hyb, mae'r argymhellion gwerthuso ffurfiannol, a nodir yn adran pump, yn parhau i fod yn feysydd datblygu posibl ar gyfer yr Hyb. Mae'r rhain yn cynnwys: prosesau goruchwylio rheolaeth a sicrhau ansawdd cadarn, gwybodaeth am fethodoleg[23] a data a thargedau CAMPUS.

[22] Ni nodwyd y rheswm am beidio â chynnal cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2015.

[23] Er enghraifft, sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi: (a) sut y casglwyd y data, (b) pryd y casglwyd y data, (c) gan bwy y casglwyd y data, a (d) sut y dadansoddwyd y data.

# 9. Llwyddiant Gweithredu

## Mewnbynnau ac Adnoddau

9.1 Mae gan yr Hyb 15 aelod o staff (12 cyfwerth ag amser llawn a 3 cyfwerth â rhan-amser). Mae'r Hyb yn cynnwys staff o'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, Llamau, addysg a Barnardo's/SERAF. Mae wedi recriwtio dau aelod o staff ychwanegol ers mis Mai 2015 (sydd wedi'u cynnwys yn y niferoedd uchod), cynorthwyydd gwaith cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn a gweinyddwr cyfwerth â rhan-amser. Dechreuodd swyddog yr heddlu dynodedig ar gyfer plant coll weithio gyda'r Hyb am gyfnod prawf o 10 wythnos ym mis Medi 2015, ond mae'r cyfnod hwn wedi dod i ben bellach.

9.2 O safbwynt systemau TG mewnol, nodwyd y byddai'n fanteisiol i staff yr Hyb gael mynediad i system e-bost gyffredin a gyriant cyfrifiadurol cyffredin, wedi'u darparu gan un Awdurdod Lleol arweiniol. Er enghraifft, er mwyn creu templedi a chadw data a gwybodaeth mewn un lle ar gyfer yr holl staff. Byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd ac yn sicrhau bod modd dod o hyd i wybodaeth os yw staff yn absennol.

## Nifer y gweithgareddau ac allbynnau

9.3 Nid yw'r Hyb wedi datblygu targedau eto ar gyfer ei holl allbynnau allweddol (er enghraifft, nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd, nifer y sesiynau ôl-drafod) sy'n golygu nad oes modd asesu ar hyn o bryd i ba raddau y mae allbynnau'r Hyb wedi'u sicrhau yn ôl y disgwyl. Mae pennu targedau penodol ar gyfer allbynnau yn faes i'w ddatblygu gan yr Hyb, a fyddai'n ei alluogi i asesu a yw'n sicrhau allbynnau yn unol â'r disgwyliadau. Fodd bynnag, mae dogfennau'n dangos bod allbynnau wedi'u sicrhau yn unol â'r lefelau a amlinellir isod.

## MIRAF

9.4 Erbyn 4 Ionawr 2016, roedd yr Hyb wedi cwblhau 1,304 o Ffurflenni Asesu Risg Unigolion Coll (MIRAFs) ar ôl eu cyflwyno ym mis Ebrill 2013, sef 41 MIRAF y mis ar gyfartaledd (ar sail 32 mis, heb gynnwys y pedwar diwrnod ym mis Ionawr). Fel y nododd yr adroddiad ffurfiannol, cwblhawyd 728 MIRAF rhwng mis Ebrill 2013 a mis Gorffennaf 2014, sef 49 y mis ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos gostyngiad yn nifer y MIRAFs a gwblhawyd bob mis ers y cam ffurfiannol. Mae'n debyg bod yr Hyb wedi bod yn diweddaru'r MIRAFs ar gyfer plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro.

9.5 Mae cronfa ddata wedi'i datblygu i gofnodi atgyfeiriadau lle na chafodd unrhyw gamau pellach eu rhoi ar waith gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer MIRAF. Y rhesymau mwyaf cyffredinol ar gyfer methu â bodloni'r meini prawf hyn yw: tystiolaeth nad oedd y person ifanc ar goll; roedd y person ifanc lai nag awr yn hwyr yn dychwelyd; a dim tystiolaeth o berygl o niwed i'r person ifanc. Dros amser, dylai hyn olygu bod modd cymharu nifer y MIRAFs a gwblhawyd â nifer y plant a atgyfeiriwyd i'r Hyb fel plant coll yn ystod yr un cyfnod. Mae yna fylchau yn y data ar gyfer chwarter cyntaf 2013, sy'n golygu nad oes modd cymharu nifer yr achosion lle na roddwyd unrhyw gamau pellach ar waith ers dechrau'r Hyb. Mae modd defnyddio hyn o hyd i ddatblygu targedau yn ymwneud ag allbynnau MIRAF a nodwyd ar gyfer yr Hyb fel sail i asesu faint o ffurflenni sydd wedi'u cwblhau ar hyn o bryd, fel yr amlinellwyd yn y gwerthusiad ffurfiannol.

## Gwasanaeth Ôl-drafod

9.6 Yn wahanol i'r gwahaniaeth sylweddol yn nifer gyfartalog y sesiynau ôl-drafod bob mis a nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol (rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2015), roedd nifer y sesiynau ôl-drafod rhwng chwarter un (40) a chwarter dau (35) yn 2015-16 yn parhau i fod yn debyg (gweler Tabl 5).

**Tabl 5: Crynodeb o ôl-drafodaethau bob mis yn y cam ffurfiannol a chyfunol**

| Adroddiad | Cyfanswm y sesiynau ôl-drafod | Nifer y misoedd | Cyfartaledd sesiynau ôl-drafod bob mis |
|---|---|---|---|
| **Mawrth 2013 – Ebrill 2014** | 480 | 14 | 32 |
| **Ebrill 2014 – Mehefin 2014** | 119 | 3 | 40 |
| **Gorffennaf 2014 – Hydref 2014** | 206 | 4 | 52 |
| **Hydref 2014 – Rhagfyr 2014** | 62 | 3 | 21 |
| **Ionawr 2015 – Mawrth 2015** | 98 | 3 | 33 |
| **Ebrill 2015 i Fehefin 2015 (Chwarter 1)** | 118 | 3 | 40 |
| **Gorffennaf 2015 – Medi 2015 (Chwarter 2)** | 104 | 3 | 35 |

9.7 Fel y nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, er mwyn asesu lefel y ddarpariaeth yng nghyd-destun cynulleidfa darged yr Hyb, byddai'n ddefnyddiol i adroddiadau chwarterol Llamau fynd ati'n rheolaidd i fonitro cyfran y plant coll (neu absennol) unigol sy'n cael sesiwn ôl-drafod o gymharu â phob plentyn coll neu absennol yng Ngwent, neu o gymharu â thargedau CAMPUS ar gyfer nifer y plant y bwriedir darparu sesiwn ôl-drafod ar eu cyfer. Bydd hyn yn helpu i nodi lefel yr allbynnau o gymharu â disgwyliadau.

9.8 Mae cyfran y cyfweliadau ôl-drafod sydd wedi'u cwblhau fel rhai ailadroddus[24] rhwng chwarter un (34%) a chwarter dau (30%) yn 2015 wedi bod yn gymharol gyson. Mae hyn yn wahanol i gyfran y sesiynau ôl-drafod a nodwyd yn y cam ffurfiannol, a oedd yn amrywio o 19% yn y flwyddyn gyntaf i 33% neu fwy ar ôl mis Ebrill 2014. Yn unol ag argymhelliad y cam ffurfiannol, mae'n debyg y byddai'r broses yn fwy tryloyw drwy ddefnyddio protocolau wedi'u dogfennu yn ymwneud â sail resymegol yr Hyb ar gyfer dyrannu sesiynau ôl-drafod, er enghraifft, i blant sy'n mynd ar goll am y tro cyntaf neu sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro.

9.9 Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, atgyfeiriodd y gwasanaeth ôl-drafod 64 o blant a phobl ifanc i dderbyn cymorth ychwanegol. Ar sail ein cyfrifiadau, sy'n rhagdybio bod pob atgyfeiriad yn ymwneud â phlentyn gwahanol, atgyfeiriwyd rhwng 28% a 30% o blant a gafodd gyfarfod ôl-drafod i asiantaeth ychwanegol neu arbenigol. Mae hyn yn dangos cynnydd bach o gymharu â rhwng 17% a 30% o fis Gorffennaf 2014 i fis Mawrth 2015 yng nghyfran y plant a atgyfeiriwyd i asiantaethau ychwanegol neu arbenigol. Mae Tabl 6 yn crynhoi nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau amrywiol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015.

[24] h.y. wedi'u darparu i blentyn sydd eisoes wedi cael un sesiwn ôl-drafod neu fwy

**Tabl 6: Crynodeb o atgyfeiriadau gan weithwyr ôl-drafod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015**

| Math o atgyfeiriad | Cyfanswm Atgyfeiriadau | Ebrill i Fehefin 2015 | Gorffennaf i Fedi 2015 |
|---|---|---|---|
| **Cyfryngu** | 16 | 9 | 7 |
| **Diogelu (MARF)** | 14 | 5 | 9 |
| **SERAF** | 13 | 10 | 3 |
| **Gwasanaethau Profedigaeth** | 5 | 3 | 2 |
| **Cwnsela** | 5 | 2 | 3 |
| **Teuluoedd yn Gyntaf** | 3 | 1 | 2 |
| **Rheoli Dicter** | 2 | 0 | 2 |
| **CAMHS** | 2 | 2 | 0 |
| **Barnardo's** | 1 | 1 | 0 |
| **Tîm Anableddau** | 1 | 1 | 0 |
| **Camddefnyddio Sylweddau (DAYS)** | 1 | 1 | 0 |
| **Gwasanaethau Ieuenctid** | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **64** | **35** | **29** |

9.10 Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth cyfryngu, diogelu (MARF) a SERAF. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith diweddar yr Hyb yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan ddangos ei fod yn cyflawni'r amcan hwn o safbwynt allbynnau'r gwasanaeth.

9.11 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, er mwyn dangos a oedd y gwasanaethau hyn yn 'briodol' o ystyried anghenion y plant a atgyfeiriwyd, gallai'r Hyb ddatblygu dulliau adborth (neu olrhain) defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, sydd wrthi'n cael eu datblygu drwy ddosbarthu arolwg i holl ddisgyblion blwyddyn 11 Gwent.

9.12 Roedd staff yr Hyb yn parhau i gyfrannu at gynlluniau gofal. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, mynychodd staff yr Hyb gyfanswm o 51 o gyfarfodydd allanol, sef 9 cyfarfod y mis ar gyfartaledd. O'i gymharu, fel y nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, mynychodd staff yr Hyb gyfanswm o 174 o gyfarfodydd allanol rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2015, sef 7 cyfarfod y mis ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos cynnydd bach yn nifer y cyfarfodydd allanol a fynychodd staff yr Hyb ar gyfartaledd.

**Cyfryngu**

9.13 Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, darparodd yr Hyb wasanaeth cyfryngu ar gyfer 15 o blant a phobl ifanc. Roedd pedwar o'r rhain yn atgyfeiriadau newydd, ac ymgysylltodd pawb â'r broses. Cyflwynodd yr Hyb 48 o sesiynau cyfryngu yn y cyfnod hwn, gan fod rhai o'r plant a'r bobl ifanc wedi cael mwy nag un sesiwn gyfryngu. O'i gymharu, fel y nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, atgyfeiriwyd 38 o blant a phobl ifanc i'r gwasanaeth cyfryngu rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, gyda chyfanswm o 90 o sesiynau'n cael eu darparu rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015. Mae hyn yn dangos bod nifer yr atgyfeiriadau wedi aros yn gymharol gyson, gyda dau bob mis ar gyfartaledd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, a thri bob mis rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer y sesiynau cyfryngu sydd wedi'u darparu bob mis ar gyfartaledd, o bedair sesiwn rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015 i wyth sesiwn rhwng

mis Ebrill a mis Medi 2015. Yn ogystal, yn unol ag argymhelliad yr adroddiad ffurfiannol, os caiff y ffigurau hyn eu hadrodd yn erbyn targedau CAMPUS, bydd yn cynorthwyo'r Hyb i asesu cynnydd o safbwynt i ba raddau y mae'n darparu'r nifer ddisgwyliedig o gyfweliadau cyfryngu (unigol a/neu ailadroddus).

## 10. Defnydd o Weithgareddau ac Allbynnau

### Rhanddeiliaid

10.1 Mae llawer o randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll yn parhau i fanteisio ar weithgareddau'r Hyb. Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2015, aeth yr Hyb ati i ddarparu hyfforddiant i 662 o weithwyr proffesiynol, a hysbyswyd pob un ohonynt am Brotocol Gwent. Mae modd asesu'r hyfforddiant a ddarparwyd i weithwyr proffesiynol fesul asiantaeth gan fod yr Hyb wedi datblygu system fonitro i gofnodi nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu sesiynau hyfforddi, yn unol â'n hargymhellion yn y cam ffurfiannol. Yn ystod y cyfnod hwn, aeth yr Hyb ati i hyfforddi:

- 606 o heddweision Gwent;
- 29 o staff y gwasanaethau cymdeithasol;
- 27 o staff preswyl.

10.2 Erbyn mis Ebrill 2015, roedd yr Hyb wedi hyfforddi tua 1,250 o weithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol ers cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2013, sef 313 o weithwyr proffesiynol bob 6 mis ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos cynnydd yn nhuedd y lefel o hyfforddiant a ddarparwyd.

10.3 Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid eu bod yn ymwybodol o hyfforddiant MIRAF, eu bod wedi defnyddio'r hyfforddiant hwn, a'i dderbyn. Gan na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o Fwrdd y Prosiect ers mis Mai 2015, nid yw cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau gwe MIRAF yn hysbys.

10.4 Cwblhawyd MIRAF ar gyfer pob un o saith astudiaeth achos yr ymgynghoriad (gweler Atodiad A) a phob un o'r wyth astudiaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Yn ogystal, mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos yn dangos bod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Hyb a'i rôl ymysg gweithwyr proffesiynol perthnasol yn uchel, a bod ymwybyddiaeth o'r MIRAF yn uchel hefyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol a gafodd eu cyfweld fel rhan o astudiaethau achos yr ymgynghoriad eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar rôl yr Hyb ac ar ddefnyddio MIRAF, sydd wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth ohoni.

### Plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr

10.5 Yn ôl adroddiadau chwarterol Llamau ar gyfer y cyfnodau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 a mis Gorffennaf a mis Medi 2015, roedd pob plentyn a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth ôl-drafod wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth, sy'n dangos lefel uchel o ddefnydd.

10.6 Yn yr un modd, mae astudiaethau achos yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn dangos bod llawer o blant a phobl ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth, gyda phob un o'r saith person ifanc a gafodd eu cyfweld fel rhan o astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn cymryd rhan mewn sesiynau ôl-drafod. Hefyd, ym mhob un o'r wyth astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynigiwyd cyfweliad ôl-drafod i'r plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, gwrthododd tri pherson ifanc gymryd rhan yn y cyfweliadau ôl-drafod.[25]

10.7 Mae natur annibynnol gweithwyr ôl-drafod a'u gallu i ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn ffordd wahanol i wasanaethau statudol yn bwysig o hyd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gwasanaeth. Er enghraifft, nododd un person ifanc fod gweithiwr ôl-drafod wedi ymgysylltu ag ef *'mewn ffordd ddynol'*.

10.8 Mae'r Hyb yn parhau i ddatblygu ei waith ym maes atal sylfaenol er mwyn ymgysylltu â phlant sydd mewn perygl o fynd ar goll. Mae wedi penderfynu peidio â datblygu rhaglen mentora cymheiriaid oherwydd peryglon posibl i'r plant a'r bobl ifanc berthnasol, er

[25] Nid yw adroddiadau chwarterol Llamau yn nodi rhesymau'r bobl ifanc am wrthod cymryd rhan.

enghraifft, o safbwynt ymgysylltu eto â phobl ifanc eraill sy'n gysylltiedig â pheryglon achosion o fynd ar goll ac agweddau eraill, fel ymddygiad troseddol, camddefnyddio sylweddau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, nododd y staff fod cynlluniau ar waith i ddatblygu gwaith atal sylfaenol yr Hyb gyda phlant, pobl ifanc a rhieni a gofalwyr. Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid a staff fod hwn yn faes pwysig i'w ddatblygu yn y dyfodol.

**Ansawdd y Gweithgareddau a'r Allbynnau**

10.9 Nid oes modd asesu a oes unrhyw newidiadau wedi bod i ansawdd y gweithgareddau a'r allbynnau a sicrhawyd ers mis Mai 2015 gan nad oes gan yr Hyb unrhyw dargedau penodol ar gyfer ansawdd ar hyn o bryd. Argymhellir y dylai'r Hyb bennu targedau CAMPUS ar gyfer ansawdd ei weithgareddau a'i allbynnau arfaethedig er mwyn mesur llwyddiant yn y maes hwn.

10.10 Yn ôl dogfennau, cyfweliadau â staff a rhanddeiliaid, astudiaethau achos yr ymgynghoriad ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn gyffredinol mae gweithgareddau ac allbynnau'r Hyb wedi'u sicrhau yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan staff, rhanddeiliaid a phobl ifanc. Yn gyffredinol, nododd pob aelod o staff a'r rhan fwyaf o randdeiliaid fod yr Hyb wedi cyflawni ei waith yn llwyddiannus neu'n gymharol lwyddiannus ers mis Mai 2015.

*MIRAF*

10.11 Nodir bod proses y MIRAF ynghyd ag adborth gan y gwasanaeth ôl-drafod yn hwyluso 'rhannu gwybodaeth â'r ymatebwyr priodol ar yr amser cywir' ac 'un gronfa ddata sy'n llunio ymateb cydgysylltiedig ar sail hanes a ffactorau risg y plentyn unigol' (Briff y Bwrdd, mis Ionawr 2016:1).

10.12 Mae'r rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid yn parhau i nodi bod MIRAF yn un o elfennau llwyddiannus gwaith yr Hyb. Yn unol ag argymhellion y gwerthusiad ffurfiannol, mae'r Hyb wedi datblygu canllawiau MIRAF, sy'n diffinio categorïau yn glir. Nod yw llawlyfr yw[26]:

- safoni'r dull o gwblhau MIRAFs;
- sicrhau bod gweithdrefnau asesu risg yn gyson;
- darparu eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau casglu gwybodaeth tîm yr Hyb;
- bod yn ddefnyddiol at ddibenion hyfforddi.

10.13 Mae staff newydd yn benodol wedi nodi bod y canllawiau yn ddefnyddiol a'u bod wedi gwella cysondeb eu hasesiadau risg.

10.14 Dywedodd un aelod o staff mai'r MIRAF yw'r elfen *'fwyaf effeithiol'* o waith yr Hyb. Roedd y rhesymau a nodwyd i egluro pam y mae'r MIRAF yn cael ei hystyried yn un o elfennau ansawdd uchel a mwyaf llwyddiannus gwaith yr Hyb yn cynnwys: mae'r MIRAF yn rhoi darlun holistaidd o fywyd y plentyn; mae'r broses asesu risg a rhannu gwybodaeth yn ddibynadwy; mae'n sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn atebol am eu gwaith.

10.15 Gwelir enghraifft o ddefnyddio'r MIRAF yn astudiaeth achos pump yr ymgynghoriad. Yn yr achos hwn, nododd athro'r person ifanc fod gwirio'r MIRAF yn rheolaidd yn galluogi'r ysgol i roi mesurau ataliol ar waith, gan gynnwys addasu'r cwricwlwm a rhoi rhagor o gymorth bugeiliol i'r person ifanc. Roedd y dull gweithredu hwn wedi llwyddo i wella canlyniadau i'r person ifanc.

10.16 Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid y byddai modd gwella'r MIRAF a'r broses o rannu gwybodaeth drwy '*fynd ati i ddarparu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol mewn ffordd ragweithiol'*, casglu'r wybodaeth ganddynt a gwneud y wefan yn *'haws ei defnyddio'* er mwyn dod o hyd i MIRAFs unigol yn gynt. Nododd un aelod o staff y byddai'n well ganddi

[26] Llawlyfr MIRAF

gynnal adolygiad MIRAF cyn i blentyn fynd ar goll pum gwaith, ond nad oedd modd gwneud hynny gan fod yr Hyb eisoes *'dan bwysau'*.

*Gwasanaeth Ôl-drafod*

10.17 Mae briff y Bwrdd yn disgrifio'r gwasanaeth ôl-drafod fel gwasanaeth sy'n 'ymgysylltu â'r plentyn ac yn rhoi'r cyfle iddo ystyried y ffactorau gwthio/tynnu sy'n gysylltiedig â mynd ar goll a chymryd risgiau' (Ionawr, 2016: 1). Roedd y rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid yr Hyb yn parhau i gredu bod y gwasanaeth ôl-drafod yn elfen lwyddiannus o waith yr Hyb.

10.18 Yn ogystal, nododd mwyafrif rhieni/gofalwyr y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld fod y gweithwyr ôl-drafod wedi datblygu perthynas dda â'r bobl ifanc. Yn benodol, nododd rhieni/gofalwyr yr elfennau cadarnhaol canlynol yng ngwaith yr Hyb gyda phobl ifanc: datblygu perthynas dda â'r person ifanc a chyfrannu'n effeithiol at gydweithio (astudiaeth achos dau); datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o amgylchiadau'r person ifanc er mwyn gwneud atgyfeiriadau priodol sy'n diwallu ei anghenion (astudiaethau achos tri a phedwar); hysbysu'r rhieni/gofalwr am gamau gweithredu yn ymwneud â'r person ifanc (astudiaethau achos tri a saith); a chyfleu'r un neges yn ymwneud â pheryglon mynd ar goll i bob gweithiwr proffesiynol (astudiaeth achos tri).

10.19 Cyfeiriodd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid at rwystrau i weithredu'r gwasanaeth ôl-drafod. Nododd un aelod o staff fod ardal ddaearyddol fawr Gwent yn rhwystr o'r fath gan fod gweithwyr ôl-drafod yn gorfod teithio'n bell i fynychu sesiynau yn aml, gan gyfyngu ar nifer y sesiynau ôl-drafod y gallant eu darparu bob dydd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn credu bod y rhwystr hwn y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb. Rhwystr arall a nodwyd gan leiafrif o staff a rhanddeiliaid oedd yr anhawster o gynnwys pobl ifanc, yn enwedig y glasoed, a'u teuluoedd yn y sesiynau ôl-drafod. Amlygir hyn gan y ffaith fod tri o'r wyth person ifanc yn yr astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaeth ôl-drafod. I ryw raddau, gellid ystyried bod y rhwystr hwn y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb, oherwydd er bod y gwasanaeth ôl-drafod yn gyfrifol am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, nid yw'n gallu gorfodi neb i gymryd rhan gan nad yw'n wasanaeth statudol.

10.20 Fodd bynnag, mae'r Hyb yn ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy fod yn hyblyg ynglŷn ag amseroedd y sesiynau ôl-drafod er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc a thrwy ddal ati i gysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd os ydynt yn parhau i fynd ar goll. Dywedodd un gweithiwr ôl-drafod (astudiaeth achos dau'r ymgynghoriad) ei bod wedi dal ati i geisio ymgysylltu ag un person ifanc am ddeunaw mis cyn iddi ymgysylltu'n llwyddiannus â'r gwasanaeth.

10.21 Yn ôl tystiolaeth o astudiaethau achos yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos sy'n seiliedig ar ganlyniadau, cafodd sesiynau ôl-drafod eu cyflwyno mewn ffordd amserol a sensitif. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar y gwasanaeth ôl-drafod (ac ar y gwasanaeth cyfryngu mewn un achos) gan blant, gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn astudiaethau achos yr ymgynghoriad, gyda'r rhan fwyaf yn nodi ei fod yn *'ddefnyddiol'*. Ymysg elfennau llwyddiannus eraill y sesiynau ôl-drafod a nodwyd gan y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld oedd y canlynol: nodi bod pobl yn *'gwrando arnynt'* ac yn *'eu credu'*; eu gwneud yn ymwybodol o beryglon pan eu bod ar goll; eu helpu i ddeall pam eu bod yn mynd ar goll/wedi mynd ar goll, a dewisiadau amgen posibl; a darparu gwasanaeth eirioli i'w helpu i fynegi eu safbwyntiau i weithwyr proffesiynol eraill.

*Hyfforddiant*

10.22 Mae'r Hyb wedi cynyddu ei ddarpariaeth hyfforddiant i ymarferwyr ers mis Mai 2015. Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth yn cynnwys plant coll, categorïau o blant coll, cofnodi achosion o blant coll, defnyddio MIRAF, camfanteisio'n rhywiol ar blant a pheryglon masnachu mewn plant. Mae wrthi'n ymestyn ei ddarpariaeth hyfforddiant drwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer cynulleidfaoedd targed newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant er mwyn nodi achosion yn gynnar.

Er enghraifft, mae wedi cyflwyno cynlluniau i hyfforddi 527 o yrwyr tacsi cofrestredig yng Nghasnewydd erbyn mis Chwefror 2016. Gall yr Hyb ddefnyddio'r targed CAMPUS hwn i fonitro allbynnau. Hefyd, byddai modd ymestyn hyn i gynnwys y gwaith o fonitro canlyniadau arfaethedig yr hyfforddiant.

10.23 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn ymwybodol bod yr Hyb yn darparu hyfforddiant, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt agwedd gadarnhaol tuag ato, gan awgrymu bod lefel ansawdd yr hyfforddiant yn ddigonol. Fodd bynnag, yn astudiaeth achos un yr ymgynghoriad, ceir tystiolaeth nad oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi llwyddo i newid ymarfer proffesiynol. Yn ôl y gweithiwr ôl-drafod yn yr achos hwn, roedd dull y lleoliad preswyl o gofnodi bod y person ifanc ar goll yn parhau i fod yn amhriodol ar adegau, er gwaetha'r ffaith fod yr Hyb wedi darparu hyfforddiant yno sawl gwaith. Er bod yr Hyb yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, mae'r achos hwn yn dangos bod newid arferion gwaith pob gweithiwr proffesiynol y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb.

10.24 Yn unol ag argymhellion ffurfiannol, mae'r Hyb wedi datblygu adnoddau adborth rhanddeiliaid, sef ffurflen gwerthuso hyfforddiant sy'n cael ei chwblhau gan bawb ar ddiwedd y sesiwn. Mae dadansoddiad o sampl o wyth ffurflen werthuso (gweler Tabl 8) yn dangos bod pawb a gymerodd ran yn credu bod yr hyfforddiant yn 'dda' neu'n 'rhagorol'. Yn ôl un cyfranogwr yn y sampl: '*roedd yr holl gynnwys yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o blant coll'.*

**Tabl 7: Crynodeb o adborth gan sampl o 8 ffurflen werthuso a gwblhawyd ar ôl sesiwn hyfforddi ym mis Tachwedd 2015**

| | Barn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwael | Gweddol | Canolig | Da | Rhagorol |
| **Cyflwynwyd yr hyfforddiant yn glir** | | | | 6 | 2 |
| **Roedd yr hyfforddiant wedi bodloni disgwyliadau** | | | | 6 | 2 |
| **Roedd yr hyfforddiant wedi gwella dealltwriaeth o'r gwasanaeth plant coll** | | | | 6 | 2 |
| **Lefel hyder i ddefnyddio MIRAF ers cwblhau'r hyfforddiant** | | 1 | 2 | 5 | |
| **Sgôr cyffredinol** | | | | 5 | 3 |

10.25 Aeth dau gyfranogwr o'r sampl o wyth ati i awgrymu meysydd i'w gwella ar gyfer yr hyfforddiant a fyddai'n ymestyn y sesiynau presennol drwy: ddangos sut i ddefnyddio'r MIRAF, gan gynnwys mewngofnodi; a neilltuo rhagor o amser i gyflwyno'r sesiwn er mwyn caniatáu trafodaeth grŵp fanylach.

10.26 Mae modd datblygu'r adnoddau monitro. Yn y dyfodol, dylai'r Hyb adrodd ar adborth gwerthuso drwy ddadansoddi ffurflenni gwerthuso'r hyfforddiant i gyd-fynd â chyfarfodydd Bwrdd y Prosiect. Yn ogystal, gallai'r Hyb ehangu'r ffurflen werthuso fel ei bod yn mesur i ba raddau y mae hyfforddiant wedi cael yr effaith a fwriadwyd ar randdeiliaid, gan gynnwys gwella dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â phlant coll ac ymatebion priodol.

10.27 Er mwyn parhau i ymestyn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr ac atal y bwlch mewn anghenion hyfforddiant staff amlasiantaeth newydd, argymhellir y dylai'r Hyb gynnwys sesiwn hyfforddiant neu godi ymwybyddiaeth fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd sydd â chyfrifoldebau perthnasol ac yn gweithio mewn gwasanaethau allweddol, fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae gweithredu'r

argymhelliad hwn yn debygol o ddibynnu ar gymorth ac ymgysylltiad ag asiantaethau eraill, yn ogystal â chymorth bwrdd a grŵp gweithredol yr Hyb.

*Gwella Gwaith Amlasiantaeth*

10.28 Nododd y rhan fwyaf o'r staff a'r rhanddeiliaid fod yr Hyb yn parhau i wella gwaith amlasiantaeth yn llwyddiannus. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid a staff fod cyfraniad yr Hyb yn golygu bod asiantaethau yn rhannu mwy o wybodaeth a'i fod yn hwyluso dull gwaith cydgysylltiedig drwy ddarparu *'cymorth cofleidiol ar gyfer plant a phobl ifanc'* drwy wneud atgyfeiriadau priodol. Er enghraifft, yn ôl un o'r rhanddeiliaid '*yn y gorffennol, cafodd y gwasanaethau cymdeithasol atgyfeiriadau gan yr heddlu yn unig, felly ni fyddai ysgolion neu'r maes iechyd yn ymwybodol ohonynt yn aml'.*

10.29 Hefyd, awgrymodd un aelod o staff mai elfen lwyddiannus arall o waith amlasiantaeth yr Hyb yw'r ffaith ei fod yn helpu staff i nodi a yw problemau neu *'gamau gweithredu wedi'u colli'* mewn achosion *'a'u hunioni'* fel ffordd o *'wirio ei gilydd'* a sicrhau bod asiantaethau yn '*atebol'*. Fodd bynnag, roedd aelod o staff arall o'r farn fod yr elfen hon yn rhwystro gwaith amlasiantaeth gan fod gweithwyr proffesiynol '*yn ymddwyn yn amddiffynnol wrth wynebu craffu ar eu gwaith'*, sy'n eu rhwystro rhag ymgysylltu ag ef.

10.30 O ran meysydd i'w gwella, nododd dau randdeiliad nad yw staff yr Hyb yn mynychu cyfarfodydd strategaeth y gwasanaethau cymdeithasol plant bellach. Fodd bynnag, mae'r dogfennau'n awgrymu bod gweithwyr ôl-drafod yn parhau i fynychu cyfarfodydd gofal a chyfarfodydd strategaeth ar ran yr Hyb. Mae'n bosibl nad yw staff yr Hyb yn cael eu gwahodd yn gyson i'r cyfarfodydd strategaeth, sy'n golygu bod eu gallu i ddylanwadu ar gynlluniau gofal y tu allan i ddylanwad yr Hyb - yn rhannol o leiaf.

10.31 Roedd chwech o wyth astudiaeth achos yr ymgynghoriad yn cynnwys tystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol yn cydweithio'n dda yn gyffredinol, gan osgoi dyblygu gwaith, a rhannu gwybodaeth yn effeithiol (astudiaethau achos dau, tri, pedwar, chwech a saith). Yn benodol, nodwyd bod yr agweddau canlynol ar waith amlasiantaeth yn fuddiol: codi ymwybyddiaeth o lefelau risg plentyn penodol nad oedd yn hysbys o'r blaen i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu; gwella diogelwch y person ifanc oherwydd cyfraniad yr heddlu at yr Hyb; rhagor o gymorth i'r teulu gan asiantaethau gwahanol; y ffaith fod yr Hyb yn gwneud ac yn dilyn atgyfeiriadau priodol er mwyn sicrhau bod anghenion y person ifanc yn cael eu diwallu yn llawn; deall sefyllfa'r person ifanc yn dda fel nad yw'n gorfod ailadrodd ei hanes dro ar ôl tro. Fodd bynnag, nid oedd yn glir bob amser bod y gwaith amlasiantaeth hwn wedi deillio o ymyrraeth yr Hyb.

10.32 Mae astudiaeth achos pump yn cynnwys sefyllfaoedd gwahanol, gydag enghreifftiau o asiantaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac enghreifftiau o waith amlasiantaeth y gellid ei wella. Er enghraifft, nododd athro'r person ifanc fod proses yr Hyb o rannu gwybodaeth drwy'r MIRAF yn ddefnyddiol i hysbysu'r ysgol am achosion o fynd ar goll y tu allan i'r ysgol ac i greu darlun o'r person ifanc er mwyn darparu cymorth ychwanegol yn yr ysgol. Fodd bynnag, nododd y person ifanc ei bod yn gorfod ailadrodd ei hanes sawl gwaith i weithwyr proffesiynol yn aml, a bod hyn yn anodd iddi.

10.33 Mae astudiaeth achos un yn cynnwys enghreifftiau o sut y gallai asiantaethau fod wedi cydweithio yn well. Er enghraifft, nododd gweithiwr cymdeithasol person ifanc nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd ragweithiol. Awgrymwyd y gallai'r Hyb wella ei gyfraniad drwy rannu gwybodaeth mewn ffordd fwy rhagweithiol a thrwy fynychu cyfarfodydd strategaeth er mwyn rhannu syniadau.

10.34 Mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn dangos bod yr Hyb wedi hyrwyddo a chymryd rhan mewn gwaith amlasiantaeth yn ymwneud â phlant coll. Cwblhawyd y gweithgareddau amlasiantaeth canlynol yn yr wyth astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau:

- cafodd pob un o'r wyth person ifanc gynnig cyfweliad ôl-drafod, a ddefnyddiwyd wedyn i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, gwrthododd tri pherson ifanc gymryd rhan mewn sesiwn ôl-drafod;
- mewn saith achos, aeth yr Hyb ati i 'gydweithredu' yn uniongyrchol ag un asiantaeth arall neu fwy er mwyn cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc;
- nododd chwech o'r astudiaethau achos fod MIRAF wedi'i chwblhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;
- mewn chwe achos, gwnaeth yr Hyb atgyfeiriad i asiantaeth arall, gan gynnwys: y gwasanaethau cymdeithasol, nyrs iechyd rhywiol, tîm camddefnyddio sylweddau , CAMHS a'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid;
- mewn dau achos, mynychodd yr Hyb gyfarfodydd amlasiantaeth, fel cyfarfodydd camfanteisio'n rhywiol ar blant a chyfarfodydd amddiffyn plant.

*Meysydd i'w Gwella*

10.35 Roedd meysydd eraill i'w gwella ar gyfer yr Hyb, a nodwyd gan staff a rhanddeiliaid, yn cynnwys: cynyddu adnoddau staffio; datblygu gwaith ataliol sylfaenol yr Hyb gyda phlant a theuluoedd; penodi swyddog yr heddlu dynodedig ar gyfer plant coll i ymateb yn uniongyrchol i adroddiadau; a darparu gwasanaeth y tu allan i oriau.

## 11. Llwyddiant o ran gwella effaith a chanlyniadau

### Yr effaith ar randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant

11.1 Mae'r Hyb yn parhau i gael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, gan gynnwys gwella'r canlynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol:

- mynediad i wybodaeth gywir ac amserol am blant sy'n mynd ar goll. Er enghraifft, nododd un gweithiwr cymdeithasol fod elfen rhannu gwybodaeth yr Hyb yn ddefnyddiol, yn enwedig y wybodaeth am y llefydd lle'r oedd y person ifanc yn mynd ar goll, y bobl ifanc eraill roedd yn ymwneud â nhw a'u peryglon cysylltiedig (astudiaeth achos un yr ymgynghoriad);
- y gallu i nodi'n gynnar achosion a pheryglon o'r person ifanc yn mynd ar goll. Er enghraifft, nododd un athro fod rhannu gwybodaeth yn rheolaidd drwy'r MIRAF yn golygu bod modd i'r ysgol roi mesurau ataliol ar waith, gan gynnwys cymorth bugeiliol ychwanegol (astudiaeth achos pump yr ymgynghoriad);
- y gallu i gydweithio'n fwy effeithiol ac osgoi dyblygu gwaith. Er enghraifft, nododd un gweithiwr cymdeithasol fod modd cadw person ifanc yn ddiogel oherwydd bod yr Hyb yn cydweithio â'r heddlu (astudiaeth achos chwech yr ymgynghoriad);
- gwybodaeth a dealltwriaeth o amgylchiadau'r person ifanc a'r peryglon cysylltiedig.

11.2 Nododd lleiafrif o randdeiliaid a rhan fwyaf y staff fod cyfraniad yr Hyb wedi cynyddu'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Fodd bynnag, yn un o astudiaethau achos yr ymgynghoriad, cafwyd tystiolaeth nad oedd asiantaethau yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd (astudiaeth achos dau). Hefyd, roedd astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn dangos y gallai rhai gweithwyr proffesiynol fod wedi cael mwy o wybodaeth am achosion penodol o blant coll, er enghraifft, drwy rannu gwybodaeth mewn ffordd ragweithiol a thrwy'r Hyb yn mynychu cyfarfodydd strategaeth.

11.3 Nododd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid fod gwaith codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant yr Hyb yn cyfrannu at newid oddi wrth ystyried plant coll yn '*blant sy'n creu problemau'* neu *'gyfranogwyr parod'* i'w hystyried yn ddioddefwyr sy'n *'cael eu gorfodi'*. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth o Adolygiad Waterhouse (2000) ac Ymchwiliad ar y cyd y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol (2012) sydd wedi nodi pwysigrwydd cydnabod canfyddiadau negyddol o bobl ifanc ymysg 'y rhai sydd mewn awdurdod' fel swyddogion yr heddlu. Yn ogystal, nododd adroddiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant De Cymru bwysigrwydd datblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin sy'n golygu bod plant yn cael eu trin fel unigolion agored i niwed (Pickles, 2015: 30).

11.4 Maes arall sydd angen i'r Hyb ei wella yw datblygu prosesau monitro a rheoli perfformiad drwy ddull mwy systematig o gasglu adborth gan randdeiliaid, fel y nodwyd yn y gwerthusiad ffurfiannol. Byddai hyn yn galluogi'r Hyb i ddangos ei effaith ar weithwyr proffesiynol yn fwy cadarn.

### Lleihau nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro

11.5 Nododd mwyafrif y staff a'r rhanddeiliaid fod yr Hyb yn helpu i leihau achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll. Fodd bynnag, dim ond nifer fach ohonynt a oedd yn gallu darparu tystiolaeth neu enghreifftiau i egluro hyn. Roedd rhanddeiliaid a staff yn tueddu i nodi y byddai angen data monitro priodol arnynt er mwyn gallu barnu yn hyderus.

11.6 Nododd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid fod y sesiwn ôl-drafod yn allweddol i ddeall amgylchiadau'r person ifanc yn llawn, yn enwedig y ffactorau gwthio a thynnu sy'n gysylltiedig ag achosion o fynd ar goll. Nododd staff a rhanddeiliaid fod deall y rhesymau pam y mae person ifanc yn mynd ar goll yn gwella'r ymateb gan weithwyr proffesiynol. Mae

hefyd yn golygu eu bod yn gallu darparu cymorth priodol, gan leihau nifer yr achosion o blant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro o bosibl.

11.7 Mae astudiaethau achos yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn darparu tystiolaeth newydd o'r effaith ar nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro.

11.8 Mewn 13 o'r 16 astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (chwech ffurfiannol a saith cyfunol), roedd y person ifanc yn mynd ar goll dro ar ôl tro. Nododd staff mai lleihau'r tebygolrwydd y byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd ar goll eto oedd un o'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer pob un ond un o'r 13 person ifanc. Cofnodwyd hyn fel effaith wirioneddol mewn chwech o'r 12 achos. Roedd y chwe achos lle y cofnodwyd gostyngiad yn dangos y newidiadau canlynol mewn lefelau risg ac ymyraethau cysylltiedig yr Hyb.

**Tabl 8: Crynodeb o ymyraethau'r Hyb a newidiadau mewn achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll a gasglwyd drwy astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**

| Astudiaeth Achos | Newid mewn achosion o fynd ar goll | Ymyraethau'r Hyb |
|---|---|---|
| **4 (Ffurfiannol)** | Cytunodd y person ifanc i gadw mewn cysylltiad â staff pan ei fod ar goll, gan olygu ei fod yn cael ei gofnodi fel bod yn absennol yn hytrach nag ar goll | • MIRAF wedi'i chwblhau<br>• Cyfweliad ôl-drafod wedi'i gynnal yn yr ysgol<br>• Atgyfeirio i CAMHS a B@1 i leihau niwed |
| **5 (Ffurfiannol)** | Lleihau nifer yr achosion o fynd ar goll – nid yw'r unigolyn wedi'i gofnodi fel bod ar goll ers dros flwyddyn | • Cyfweliadau ôl-drafod rheolaidd a oedd yn gyfle i ddarparu eiriolaeth hefyd<br>• Cyfryngu rhwng yr unigolyn a'i nain<br>• Atgyfeirio i'r tîm camddefnyddio sylweddau<br>• Cydweithiodd yr Hyb â'r gweithiwr cymdeithasol, darparwyr addysg, y teulu estynedig a swyddogion adolygu annibynnol |
| **7 (Ffurfiannol)** | Mae nifer yr achosion o fynd ar goll wedi lleihau, heb unrhyw achos ers tua mis | • Cyfweliad ôl-drafod<br>• MIRAF wedi'i chwblhau<br>  o Y rhesymau am achosion o fynd ar goll wedi'u nodi<br>  o 'Camau tuag at ddiogelwch' wedi'u trafod<br>• Cydweithiodd yr Hyb â'r gwasanaethau cymdeithasol ym meysydd gwybodaeth a chynlluniau<br>• Asesiad SERAF wedi'i gwblhau a gweithiwr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cefnogi'r person ifanc<br>• Atgyfeirio i *Cruse Bereavement Counselling*<br>• Atgyfeirio i wasanaeth cyfryngu<br>• Yr Hyb wedi cyfrannu at strategaeth SERAF a chyfarfodydd CIN |
| **2 (Cyfunol)** | Mae adroddiadau bod y person ifanc ar goll wedi dod i ben ac mae nifer yr adroddiadau ei fod yn absennol wedi lleihau | • Adolygu'r MIRAF er mwyn ailasesu risg ac israddio o fod ar goll i fod yn absennol<br>• Gwaith ôl-drafod gyda Jack wedi'i gwblhau<br>• Mae'r Hyb wedi darparu cyngor a chanllawiau ar gyfer gweithwyr preswyl<br>• Mae'r Hyb wedi darparu cymorth i'w riant drwy ei atgyfeirio i weithdy sgiliau rhianta<br>• Mae'r Hyb wedi gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill, gan gynnwys: y gwasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (YOS), a'r gwasanaeth cyffuriau ac alcohol |
| **4 (Cyfunol)** | Dim adroddiadau bod y person ifanc ar goll ers cwblhau'r adroddiad cyfryngu | • MIRAF wedi'i chwblhau<br>• Lefel risg wedi'i hasesu ac ymateb priodol 'Absennol tan Hanner Dydd' wedi'i roi ar waith gan yr Hyb<br>• Gwaith ôl-drafod gyda Mary wedi'i gwblhau<br>• Mae'r Hyb wedi darparu sesiynau cyfryngu ar gyfer Mary a'i mam<br>• Mae'r Hyb wedi gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill gan gynnwys: yr ysgol ar gyfer cymorth yn ymwneud â bwlio a CAMHS ar gyfer cymorth emosiynol |
| **8 (Cyfunol)** | Nifer yr achosion o fynd ar goll wedi lleihau o un ar ddeg ym mis Hydref 2015 i bump ym mis Tachwedd 2015 | • Asesiad MIRAF wedi'i gwblhau<br>• Sesiwn ôl-drafod wedi'i chynnig ond heb ei derbyn<br>• Mynychodd yr Hyb gyfarfod amddiffyn plant amlasiantaeth<br>• Mae'r Hyb wedi gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill gan gynnwys: y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol a nyrs iechyd LAC, ond mae Olly wedi gwrthod mynychu<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff yn yr uned breswyl ac ar gyfer yr heddlu ym meysydd camfanteisio'n rhywiol ar blant, plant coll a mynediad i MIRAF |

11.9 Mae pump o'r chwe astudiaeth achos uchod sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn darparu rhywfaint o dystiolaeth bod ymyrraeth yr Hyb wedi helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddai pobl ifanc yn mynd ar goll eto yn yr achosion hynny. Fodd bynnag, mae rôl astudiaeth achos wyth o ran lleihau nifer yr achosion o fynd ar goll yn llai eglur.

11.10 Cynhaliwyd dwy astudiaeth achos gyda phobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn y cam ffurfiannol a'r cam cyfunol. Roedd gan y ddau berson ifanc brofiad o fynd ar goll dro ar ôl tro. Felly, mae modd nodi unrhyw newidiadau yn nifer yr achosion o'r bobl ifanc hyn yn mynd ar goll ers mis Mai 2015. Mae astudiaeth achos un yn dangos bod y person ifanc yn parhau i fynd ar goll yn rheolaidd. Fel sy'n wir am y cam ffurfiannol, nododd pob un o'r rhai y cysylltwyd â nhw nad yw cyfraniad yr Hyb wedi cael effaith ar debygolrwydd y person ifanc o fynd ar goll.

11.11 Yn astudiaeth achos dau, er nad oedd y person ifanc yn mynd ar goll yn y cam ffurfiannol bellach, nododd y gofalwr a'r gweithiwr cymdeithasol bod y person ifanc wedi bod yn cysgu mewn nifer o lefydd gwahanol ('syrffio soffas'), ac er nad oedd yn cael ei chofnodi'n swyddogol fel bod ar goll, nid oedd unrhyw ofalwr yn bresennol i nodi ei bod ar goll. Ni chofnodwyd bod y person ifanc wedi bod ar goll o'i hostel 16+ newydd ers pedwar mis, ac mae hi'n dweud bod y rhesymau pam ei bod yn mynd ar goll o'r blaen wedi'u datrys. Roedd hi'n priodoli hyn yn rhannol i gymorth hirdymor yr Hyb.

11.12 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gan y ddau berson ifanc hyn, sy'n 16 oed, anawsterau cymhleth a pheryglon cysylltiedig. Mae data MIRAF yn dangos bod y bobl ifanc hyn yn cynrychioli grŵp proffil o bobl ifanc ag anghenion cymhleth y mae'r Hyb yn gweithio gyda nhw, sydd, yn ôl lleiafrif o staff a rhanddeiliaid, yn creu heriau o safbwynt lleihau achosion o fynd ar goll.

11.13 Mae profiadau'r gyfran fechan hon o blant yn awgrymu canlyniadau cymysg o safbwynt sicrhau effaith ddymunol yr Hyb o leihau nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro. Fodd bynnag, fel y nododd y rhanddeiliaid, mae newid bywydau ac ymddygiad plant yn cymryd amser.

11.14 Mae pob un o bum astudiaeth achos newydd yr ymgynghoriad[27] yn y cam cyfunol a phump o'r astudiaethau achos ffurfiannol, ac eithrio'r ddwy astudiaeth achos hydredol, yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll neu a aeth ar goll dro ar ôl tro. Mae tystiolaeth o gamau ffurfiannol a chyfunol deg astudiaeth achos yr ymgynghoriad yn dangos y newidiadau canlynol yn nifer yr achosion o bob person ifanc yn mynd ar goll, fel y dangosir yn Nhabl 10.

[27] Heb fod yn achosion dro ar ol tro

**Tabl 9: Manylion y newid yn nifer yr achosion o bobl ifanc yn mynd ar goll ar gyfer camau ffurfiannol a chyfunol astudiaethau achos yr ymgynghoriad**

| Astudiaeth Achos | Nifer yr achosion o fynd ar goll adeg ymyrraeth gychwynnol yr Hyb | Nifer yr achosion o fynd ar goll adeg gwerthuso (Ffurfiannol: Ebrill 2015 a Chyfunol: Tachwedd 2015) |
|---|---|---|
| **2 (Ffurfiannol)** | Mae'r person ifanc wedi mynd ar goll dwywaith ers hydref 2014 | Aeth y person ifanc ar goll unwaith yn rhagor ar ôl y sesiwn ôl-drafod a chyfryngu yn ôl y gweithiwr cyfryngu. Roedd y gweithiwr cyfryngu a'r person ifanc yn teimlo ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll eto. |
| **3 (Ffurfiannol)** | Cofnodwyd bod y person ifanc ar goll tair gwaith yn 2014 | Nododd y person ifanc a'i gweithiwr cymdeithasol bod y tebygolrwydd o'r person ifanc yn mynd ar goll eto wedi lleihau. |
| **5 (Ffurfiannol)** | Ar goll dro ar ôl tro cyn mis Chwefror 2015 | Er bod y person ifanc wedi nodi ei bod yn llai tebygol o fynd ar goll, roedd y gweithwyr proffesiynol a gafodd eu cyfweld yn teimlo ei bod *'bron yn sicr'* o fynd ar goll eto. |
| **6 (Ffurfiannol)** | Cofnodwyd bod y person ifanc wedi mynd ar goll dros ddeg ar hugain o weithiau ers 2014 | Roedd y person ifanc, ei gofalwr a'i gweithiwr cymdeithasol i gyd o'r farn ei bod yn llai tebygol o fynd ar goll eto. |
| **8 (Ffurfiannol)** | Cofnodwyd bod y person ifanc wedi mynd ar goll wyth gwaith ers 2014, a'r tro diwethaf iddi fynd ar goll oedd mis Ebrill 2014 | Nododd y gweithiwr cymdeithasol a mam y person ifanc nad oes unrhyw effaith wedi bod ar nifer yr achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll. |
| **3 (Cyfunol)** | Achosion o fynd ar goll yn rheolaidd (un bob wythnos ar un adeg) am sawl diwrnod ar y tro | Gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o fynd ar goll wedi'i nodi gan y person ifanc, ei fam a'i weithiwr ôl-drafod. |
| **4 (Cyfunol)** | Achosion o fynd ar goll yn rheolaidd am flwyddyn ar ôl 2013 | Dim achosion o fynd ar goll am bum mis. |
| **5 (Cyfunol)** | Aeth ar goll am y tro cyntaf chwe mis yn ôl, a chofnodwyd iddi fynd ar goll yn rheolaidd ers hynny | Mae'r person ifanc yn dweud ei bod yn llai tebygol o fynd ar goll bellach, ond mae ei mam yn nodi ei bod yn parhau i fynd ar goll yn rheolaidd. |
| **6 (Cyfunol)** | Achosion rheolaidd o fynd ar goll, tua 15 y mis | Mae'r person ifanc a'i weithiwr cymdeithasol yn nodi ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll bellach. |
| **7 (Cyfunol)** | Ar goll bob dydd ers 2013 | Ers mis Mai 2015, cofnodwyd bod y person ifanc hwn wedi bod ar goll 3 gwaith. |

11.15 Mae gostyngiad yn nifer yr achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll wedi'i gofnodi mewn saith o ddeg astudiaeth achos yr ymgynghoriad. Mewn tair o'r saith achos sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll, ni ellir profi bod gwaith yr Hyb wedi arwain yn uniongyrchol at leihau'r perygl o blant yn mynd ar goll. Fodd bynnag, yn astudiaeth achos saith (cyfunol), mae'r person ifanc a'i gofalwr maeth yn priodoli gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll yn uniongyrchol i ymyrraeth yr Hyb, gan nodi bod eiriolaeth y gweithiwr ôl-drafod wedi arwain at newid lleoliad gofal y person ifanc. Hefyd, yn astudiaethau achos tri a chwech (ffurfiannol), mae modd priodoli gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll i'r Hyb yn rhannol, er ei fod i'w briodoli'n bennaf i ffactorau eraill. Er

enghraifft, er bod y person ifanc yn astudiaeth achos tri (ffurfiannol) wedi nodi ei bod wedi *'stopio dod adref yn hwyr'* yn unol â'r amser a bennwyd gan ei theulu maeth yn dilyn y sesiwn ôl-drafod, nododd y gweithiwr cymdeithasol a'r person ifanc mai newid lleoliad maeth y person ifanc, a'r ffaith ei bod yn agosach at ei theulu a'i ffrindiau, oedd y prif reswm am y gostyngiad yn nifer yr achosion o fynd ar goll. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn yr achos hwn bod newid y lleoliad gofal i'w briodoli i ymyrraeth yr Hyb.

11.16 Mae'n bwysig nodi bod yr astudiaethau achos yn portreadu profiadau cyfran fach o blant y mae'r Hyb wedi ymwneud â nhw a'u bod yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol y rhai a gymerodd ran. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, yn hytrach na dangos pa mor effeithiol yw'r Hyb o ran sicrhau canlyniadau ac effeithiau arfaethedig, mae'r astudiaethau achos yn dangos bod dulliau gweithredu'r Hyb yn gallu arwain at newidiadau arfaethedig, a bod hynny wedi digwydd mewn rhai achosion.

11.17 Nododd y gwerthusiad ffurfiannol gynnydd o 7% yn nifer y plant a oedd ar goll neu'n absennol rhwng mis Chwefror 2014 a mis Chwefror 2015, a chynnydd o 11% rhwng mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2015 ar sail dadansoddiad o ddeg MIRAF gan Cordis Bright. Roedd hyn yn dangos tuedd glir bod lefelau risg gyffredinol plant a oedd yn destun MIRAFs gan yr Hyb wedi lleihau (mewn pedwar achos) neu wedi aros yn ddigyfnewid (mewn chwe achos) dros amser. Nid oes unrhyw ddata ychwanegol wedi'i ddarparu ers hynny. Felly, nid oes modd asesu a oes unrhyw newid wedi bod dros amser yn nifer y plant sy'n mynd ar goll neu'r lefelau risg i blant sy'n hysbys i'r Hyb.

11.18 Nid oes modd asesu'n gywir i ba raddau y gall yr Hyb fod yn cyfrannu at leihau nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro. Yn unol â'r argymhellion a wnaed yn y gwerthusiad ffurfiannol, mae angen dull mwy systematig o fonitro a rheoli perfformiad fel bod yr Hyb yn gallu dangos hyn yn fwy cadarn.

**Gwella canlyniadau eraill ar gyfer plant sy'n mynd ar goll**

11.19 Mae yna dystiolaeth addawol o hyd bod yr Hyb a'i bartneriaid yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill ar gyfer plant sy'n mynd ar goll.

11.20 Nododd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid fod cyfraniad yr Hyb wedi helpu i nodi'n gynnar peryglon fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu mewn plant a gweithgareddau troseddol. Yn ogystal, mae papur briffio mis Ionawr 2016 y bwrdd yn nodi mai un o fanteision posibl model yr Hyb yw'r gallu i nodi ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion o blant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol, a nodi troseddwyr posibl a mannau lle y gall troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd yn aml.[28]

11.21 Mae'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn dangos bod yr Hyb yn helpu i wella canlyniadau eraill ar gyfer plant sy'n mynd ar goll. Er enghraifft, roedd tystiolaeth mewn tair astudiaeth achos nad oedd y person ifanc wedi cael euogfarn droseddol arall; bod profiad o ddioddef camfantais rhywiol wedi lleihau mewn un achos; bod y bobl ifanc mewn dau achos wedi datblygu dealltwriaeth well i'w hamddiffyn eu hunain o bosibl yn erbyn camfantais rhywiol; bod profiadau o niwed, yn enwedig camddefnyddio sylweddau a hunan-niweidio, wedi lleihau mewn dau achos; bod presenoldeb addysgol wedi cynyddu mewn un achos; a nodwyd bod cysylltiadau teuluol wedi gwella mewn un astudiaeth achos.

11.22 Dangosodd tystiolaeth o astudiaethau achos yr ymgynghoriad fod yr Hyb wedi helpu i wella canlyniadau eraill ar gyfer pobl ifanc drwy leihau'r perygl o ddigartrefedd, camddefnyddio sylweddau, y perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad troseddol a hunan-niweidio. Fodd bynnag, er gwaethaf ymyrraeth yr Hyb, mewn dau achos mae'r bobl ifanc yn parhau i wynebu lefel uchel o berygl pan eu bod ar goll. Mae'r dystiolaeth newydd hon ar

[28] Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i gwirio'n annibynnol.

sail sampl fach yn awgrymu bod llwyddiant yr Hyb yn gymysg o ran gwella canlyniadau eraill i blant sy'n mynd ar goll.

11.23 Nododd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid bod lleihau achosion o fasnachu mewn plant yn un o ganlyniadau arfaethedig yr Hyb. Er gwaetha'r ffaith fod un o'r astudiaethau achos sy'n seiliedig ar ganlyniadau wedi nod bod masnachu mewn plant yn un o'r peryglon i'r person ifanc, a bod atgyfeiriad y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) wedi'i wneud, roedd tystiolaeth o hyd bod y person ifanc wedi dioddef masnachu mewn plant. Mae'n amlwg nad yw'r Hyb yn gallu lleihau profiadau niweidiol sy'n deillio o beryglon hysbys bob amser pan fydd plentyn ar goll, er bod llawer o ffactorau sy'n arwain at brofiadau o'r fath y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb. Fodd bynnag, nododd staff yr Hyb fod gwaith i leihau achosion o fasnachu mewn plant wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith yr Hyb fel rhan o gynllun peilot 10 wythnos yn unig.

11.24 Yn unol â'r adroddiad ffurfiannol, byddai datblygu proses cynllunio strategol yn galluogi'r Hyb i fesur i ba raddau y mae'n cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig eraill ar gyfer plant a phobl ifanc drwy ei waith monitro a rheoli perfformiad.

**Amrywiadau yn effaith yr Hyb ar blant**

11.25 Dywedodd mwyafrif o aelodau staff yr Hyb a lleiafrif o randdeiliaid fod effaith yr Hyb yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Priodolwyd yr amrywiad hwn yn bennaf i wahaniaethau rhwng nifer y plant sy'n mynd ar goll mewn ardaloedd gwahanol; poblogaethau lleol, o ran amrywiaeth a nifer y plant sy'n derbyn gofal; trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant, plant mewn angen a SERAF; deall achosion o blant coll, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu mewn plant a'u lefelau risg cysylltiedig; a lefelau monitro cofnodion plant coll a MIRAF. Yn benodol, nododd staff yr Hyb nad yw rhai asiantaethau statudol yn darparu gwaith Cadw'n Ddiogel ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef camfantais rhywiol. Fodd bynnag, nododd un aelod o staff fod effaith yr Hyb yn amrywio mwy yn ôl ymateb y cartref gofal na'r awdurdod lleol, oherwydd yn aml mae'r plant sy'n byw yno yn dod i gysylltiad ag eraill sy'n mynd ar goll.

11.26 Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau staff yr Hyb a lleiafrif o randdeiliaid fod effaith yr Hyb yn amrywio yn ôl lefel yr angen. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain fod yr Hyb yn fwy effeithiol ar hyn o bryd fel ffordd o ymyrraeth gynnar ar gyfer plant sydd wedi mynd ar goll unwaith neu ddwy yn unig ac ar gyfer plant iau. Nodwyd bod ymddygiad sydd wedi'i hen sefydlu, a diffyg ymgysylltu ymysg plant hŷn neu blant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro, yn cael eu hystyried yn rhwystrau mawr i effaith yr Hyb. Fodd bynnag, nododd un aelod o staff fod unrhyw effaith ar blant sydd mewn mwy o berygl yn arwain at *'fwy o fanteision'*, o ran diogelu plant yn benodol.

**Ffactorau galluogi a rhwystrau**

11.27 Nododd y rhan fwyaf o'r staff a'r rhanddeiliaid mai'r dull gweithredu amlasiantaeth yw'r prif ffactor sy'n galluogi'r Hyb i gael effaith gadarnhaol. Yn benodol, nodwyd bod cynnwys asiantaethau perthnasol amrywiol a chydleoli tîm yr Hyb yn gwella canlyniadau i blant drwy wella ymatebion proffesiynol a chydweithio mewn achosion o blant coll. Er bod y ffactor hwn wedi'i nodi fel ffactor galluogi yn y cam ffurfiannol, roedd rhanddeiliaid a staff yn rhoi mwy o bwyslais ar yr agwedd hon ar waith yr Hyb yn y cam cyfunol. Ymysg y ffactorau galluogi eraill a nodwyd gan staff a rhanddeiliaid oedd: rhannu a throsglwyddo gwybodaeth, y MIRAF, asesiadau risg ar y cyd, profiad a sylfaen wybodaeth staff yr Hyb, ymrwymiad asiantaethau strategol ac allanol, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ac ôl-drafod. Nodwyd bod y gwasanaeth ôl-drafod a gwybodaeth a phrofiad y staff yn ffactorau galluogi yn y cam ffurfiannol hefyd.

11.28 Fodd bynnag, nododd lleiafrif o staff fod elfennau o waith amlasiantaeth yn rhwystrau i sicrhau effaith ddymunol yr Hyb, fel diffyg rhannu gwybodaeth, a chwblhau'r MIRAF yn brydlon. Er enghraifft, cyfeiriodd un aelod o staff at '*duedd naturiol i fod yn amddiffynnol os yw prosiect newydd [yr Hyb] yn amlygu bylchau yn ei wasanaeth*', sy'n awgrymu nad yw rhai rhanddeiliaid ehangach wedi ymgysylltu â'r Hyb i'r graddau mwyaf posibl. Nododd aelod o staff arall nad yw un awdurdod lleol yn monitro rhybuddion e-bost sy'n rhoi gwybod bod plant hysbys ar goll, gan olygu yn aml nad oes gan y gweithiwr cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf am achosion o blant yn mynd ar goll a'r peryglon cysylltiedig.

11.29 Rhwystrau eraill sy'n wynebu'r Hyb yn ôl lleiafrif o staff a rhanddeiliaid yw'r mesurau caledi sy'n arwain at lai o adnoddau, cylch gwaith daearyddol eang, a diffyg ymwybyddiaeth o'r Hyb ymysg gweithwyr proffesiynol, yn enwedig y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, cyfeiriodd lleiafrif o staff a rhanddeiliaid at rôl hyfforddiant wrth wella agweddau gweithwyr proffesiynol at blant sydd ar goll ac ymwybyddiaeth o'r maes.

**Dylanwad yr Hyb**

11.30 Mae elfennau allweddol o waith yr Hyb yn dibynnu ar waith asiantaethau eraill er mwyn helpu i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n mynd ar goll. Oherwydd dibyniaeth yr Hyb ar waith ei bartneriaid i sicrhau rhai o'i effeithiau a'i ganlyniadau arfaethedig allweddol, nodwyd sawl ffactor gan randdeiliaid a staff sy'n gweithredu fel rhwystrau ac sydd y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb.

11.31 Er bod staff a rhanddeiliaid yr Hyb wedi nodi bod ei weithgareddau codi ymwybyddiaeth, ei hyfforddiant ac arweiniad, a'i systemau cyfathrebu agored yn helpu i oresgyn rhwystrau sy'n deillio o waith amlasiantaeth, nodwyd bod y ffactorau canlynol y tu allan i ddylanwad yr Hyb yn rhannol o leiaf:

- Manteisio ar atgyfeiriadau (fel y gwelir yn astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau rhif pedwar);
- Argaeledd a darpariaeth gwasanaethau allanol, yn enwedig gwasanaethau sy'n darparu cymorth hirdymor i blant a phobl ifanc (fel y gwelir yn astudiaeth achos pump yr ymgynghoriad);
- Rhannu gwybodaeth ymysg partneriaid allanol (fel y gwelir yn astudiaeth achos chwech yr ymgynghoriad);
- Defnydd o'r MIRAF gan asiantaethau eraill (fel y cofnodir gan staff yr Hyb);
- Argaeledd adnoddau ar gyfer yr Hyb, fel platfform TGCh a rennir er mwyn gweithredu systemau monitro a dadansoddi effeithiol;
- Asiantaethau eraill yn manteisio ar hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan yr Hyb (fel y gwelir yn adran 10).

11.32 Er enghraifft, yn astudiaeth achos un yr ymgynghoriad, nododd y gweithiwr ôl-drafod fod y lleoliad preswyl yn parhau i gofnodi bod y person ifanc ar goll mewn ffordd amhriodol ar adegau, er gwaetha'r ffaith fod yr Hyb wedi darparu hyfforddiant yno sawl gwaith. Yn ogystal, er gwaethaf natur annibynnol y gwasanaeth ôl-drafod a hyblygrwydd gweithwyr ôl-drafod wrth addasu i anghenion pobl ifanc, fel trefnu lleoliadau ac amseroedd cyfarfodydd er enghraifft, mae nifer o ffactorau'n parhau i fod y tu hwnt i ddylanwad yr Hyb i raddau helaeth, gan gynnwys ei gylch gwaith daearyddol eang, diffyg cydymffurfiaeth neu gydymffurfiaeth ffug *('disguised compliance')*,[29] a'r person ifanc yn methu cydsynio i ymgysylltu.

[29] *"Disguised compliance' involves a parent or carer giving the appearance of co-operating with child welfare agencies to avoid raising suspicions, to allay professional concerns and ultimately to diffuse professional intervention'* (NSPCC, 2010)

11.33 Mae enghraifft arall o ddylanwad cyfyngedig yr Hyb i'w gweld yn astudiaeth achos pump (newydd) yr ymgynghoriad. Yn yr achos hwn, mae'r gweithiwr cyfryngu yn nodi bod yr Hyb yn dibynnu ar fodolaeth cyfyngedig ac amrywiol asiantaethau a gwasanaethau cymorth priodol eraill y gellir cyfeirio'r person ifanc atynt am gymorth. Gan nad bwriad yr Hyb yw bod yn ffynhonnell cymorth hirdymor parhaus ar gyfer plant coll, gall y rhwystr arwyddocaol hwn atal yr Hyb rhag sicrhau ei effeithiau a'i ganlyniadau arfaethedig.

## 12. Gwerth am arian

12.1 Yn ôl amcangyfrif yr Achos Busnes ar gyfer Prosiect Amlasiantaeth Plant a Phobl Ifanc Coll Gwent, mae'n costio tua £2.25 miliwn i ymdrin â phlant coll yng Ngwent.[30]

12.2 Ar sail y data mwyaf perthnasol a adolygwyd ym mis Ebrill 2015, amcangyfrifir ei bod yn costio £406,367 i gynnal yr Hyb am flwyddyn. Amcangyfrifir bod asiantaethau eraill yng Ngwent yn ysgwyddo mwy na hanner y gost hon drwy gyfrannu £253,024 tuag at gyflogau staff. Nid oedd gwybodaeth ariannol fwy diweddar ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oedd modd gwybod a gafodd y tanwariant o £145,008 ym mlwyddyn un a'r tanwariant o £132,401 ym mlwyddyn dau eu gwario.

12.3 Gan na chasglwyd unrhyw ddata meintiol crynswth yn ymwneud â chanlyniadau'r Hyb, ni ellir cynnal dadansoddiad cost a budd manwl o'r Hyb. Yn hytrach, mae'r adran hon yn cyflwyno enghreifftiau o'r mathau o arbedion sydd wedi deillio o'r Hyb o bosibl, ar sail tystiolaeth o ganlyniadau'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth fod pob ymchwiliad yr heddlu i achos o fynd ar goll yn costio £1,500[31], yn ogystal â chostau gwasanaethau a chanlyniadau eraill sy'n deillio o gronfeydd data costau unedol, fel cronfa ddata costau unedol Manchester New Economy[32]. Mae'n bwysig cydnabod bod y dadansoddiadau cost a budd a gyflwynir isod yn gyfyngedig oherwydd rhesymau fel:

- Mae'r holl gostau sy'n cael eu defnyddio yn amcangyfrifon ac nid yn gostau gwirioneddol o ddefnyddio neu beidio â defnyddio gwasanaeth ym mhob achos. Er enghraifft, os yw'n hysbys bod gan y person ifanc 'bresenoldeb gwael yn yr ysgol', roedd angen cynnwys cost triwantiaeth cyson dros gyfnod o flwyddyn gan mai hon yw'r gost unedol fwyaf priodol sydd ar gael.
- Nid yw costau'r holl wasanaethau a chanlyniadau yn hysbys, felly nid yw cost neu werth rhai canlyniadau neu wasanaethau wedi'u cynnwys. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod beth yw cost cwblhau MIRAF neu beth yw gwerth 'lleihau'r profiad o fwlio yn yr ysgol'.
- Nid yw'n hysbys a fyddai'r canlyniadau a'r defnydd o wasanaethau ar ôl ymyraethau'r Hyb wedi dod i'r amlwg pe na bai'r Hyb yn bodoli. O ganlyniad, nid oes modd priodoli'r canlyniadau hyn (ac unrhyw fanteision o ran costau) i'r Hyb er sicrwydd.

12.4 Mae Tabl 10 yn dangos dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb ar sail astudiaeth achos 4 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cam cyfunol). Cyn ymyrraeth yr Hyb, mae'n dangos bod achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll ac o bresenoldeb gwael yn yr ysgol wedi costio tua £6,378. Roedd ymyraethau'r Hyb a'i atgyfeiriadau i asiantaethau eraill wedi costio tua £1,572, yn bennaf oherwydd y gost o ddarparu gwasanaeth cyfryngu, er nad yw'r gost o gwblhau MIRAF ar gyfer y person ifanc hwn yn hysbys. Amcangyfrifir bod cyfraniad yr Hyb wedi arbed tua £6,378 drwy atal achosion o fynd ar goll yn y dyfodol a gwella presenoldeb yn yr ysgol. Ymysg y canlyniadau cadarnhaol eraill oedd gwella cysylltiadau

[30] Mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn rhy isel gan nad yw'n cynnwys: unrhyw ymdrechion cychwynnol i ddod o hyd i'r plentyn cyn rhoi gwybod i'r heddlu; ymyraethau a gytunwyd mewn cyfarfodydd strategaeth; ymyraethau meddygol; costau llys, gweithgareddau eraill sy'n cael eu cyflawni gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofalwyr Preswyl a Gofalwyr Maeth, neu'r byd addysg. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Achos Busnes, Prosiect Amlasiantaeth Plant a Phobl Ifanc Coll Gwent, Fersiwn 0.3 Drafft.

[31] Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar waith ymchwil yn 2013 a oedd yn amcangyfrif ei bod yn costio rhwng £1,325 a £2,415 i ymchwilio i achos o rywun yn mynd ar goll. Nid yw'n cynnwys costau asiantaethau ac eithrio'r heddlu, costau personol ac emosiynol, neu gostau'r heddlu y tu hwnt i'r ymchwiliadau, ac felly mae'n debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol. Gweler: Greene, Karen Shalev, a Francis Pakes. 'The Cost of Missing Person Investigations: Implications for Current Debates'. *Policing*, 2013, 1–8.

[32] Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: http://neweconomymanchester.com/our-work/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database

teuluol a lleihau profiadau o fwlio, er nad oedd modd pennu gwerth ariannol ar gyfer y rhain. O ganlyniad, mae'n bosibl bod manteision cost gwerth tua £4,806 mewn perthynas â'r person ifanc hwn wedi deillio o'r Hyb.

**Tabl 10: Dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb yn seiliedig ar astudiaeth achos 4 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cyfunol)**

| Defnydd o'r gwasanaeth a chanlyniadau | Amcangyfrif o'r gost |
|---|---|
| ***Costau a ysgwyddwyd cyn ymyrraeth yr Hyb*** | |
| **Tri achos o fynd ar goll** | £4,500[33] |
| **Presenoldeb gwael yn yr ysgol** | £1,878[34] |
| **Cyfanswm** | **£6,378** |
| | |
| ***Cost ymyraethau'r Hyb*** | |
| **MIRAF** | Anhysbys |
| **Dwy sesiwn ôl-drafod** | £378[35] |
| **Pedair sesiwn cyfryngu** | £716 |
| **Ymweliad gweithiwr cymdeithasol â'r cartref** | £59[36] |
| **Cymorth camddefnyddio sylweddau** | £271[37] |
| **Cwnsela yn yr ysgol** | £148[38] |
| **Cyfanswm** | **£1,572** |
| | |
| ***Costau a gafodd eu hosgoi o bosibl oherwydd ymyrraeth yr Hyb*** | |
| **Dim achosion eraill o fynd ar goll** | £4,500 |
| **Gwella cysylltiadau teuluol** | Anhysbys |
| **Lleihau profiad o fwlio yn yr ysgol** | Anhysbys |
| **Gwella presenoldeb yn yr ysgol** | £1,878[39] |
| **Cyfanswm** | **£6,378** |
| | |
| **Manteision cost (costau a gafodd eu hosgoi – cost ymyraethau'r Hyb)** | **£4,806** |

12.5 Mae Tabl 12 yn dangos dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb ar sail astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau 3 (cam cyfunol). Mae'n dangos bod ymyraethau'r

[33] Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar waith ymchwil yn 2012 a oedd yn amcangyfrif ei bod yn costio rhwng £1,325 a £2,415 i ymchwilio i achos o rywun yn mynd ar goll. Nid yw'n cynnwys costau asiantaethau ac eithrio'r heddlu, costau personol ac emosiynol, neu gostau'r heddlu y tu hwnt i'r ymchwiliadau, ac felly mae'n debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol. Gweler: Greene, Karen Shalev, a Francis Pakes. 'The Cost of Missing Person Investigations: Implications for Current Debates'. *Policing*, 2013, 1–8.
[34] Cost gyllidol triwantiaeth cyson fesul unigolyn bob blwyddyn, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[35] Cyfrifwyd costau'r sesiynau ôl-drafod a chyfryngu drwy ddefnyddio cost y gwasanaeth ym Mlwyddyn 1 (£79,664) wedi'i rhannu â chyfanswm y sesiynau ôl-drafod a chyfryngu a ddarparwyd ym Mlwyddyn 1 (421), gan roi cost gyfartalog fesul sesiwn o £189.
[36] Cost bob awr gweithiwr cymdeithasol (gan gynnwys costau cymhwyso), yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[37] Yn seiliedig ar gost gyllidol HE2.9 cymorth camddefnyddio sylweddau cymunedol plant a'r glasoed, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[38] Yn seiliedig ar gost gyllidol E&S4.0 y rhaglen dysgu emosiynol mewn ysgolion fesul plentyn bob blwyddyn, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[39] Cost gyllidol triwantiaeth cyson fesul unigolyn bob blwyddyn, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.

Hyb mewn perthynas â'r person ifanc hwn wedi costio tua £4,066. Mae'n bosibl bod yr Hyb wedi arbed tua £2,458 i'r trethdalwr gan na chofnodwyd unrhyw achosion o fynd ar goll yn dilyn cyfraniad yr Hyb. Hefyd, ni chofnodwyd unrhyw droseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant ar ôl ymyrraeth yr Hyb, er bod y person ifanc mewn perygl mawr o hynny ynghynt. Mae hyn yn awgrymu y gallai ymyraethau'r Hyb fod wedi costio tua £1,608 yn fwy na'r hyn a arbedwyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y model hwn yn rhagdybio mai dim ond un achos o fynd ar goll ac un drosedd camfanteisio'n rhywiol ar blant a fyddai wedi deillio o ddiffyg ymyrraeth yr Hyb, ond mewn gwirionedd, mae'n bosibl iawn y byddai'r achos wedi gwaethygu oni bai am fodolaeth yr Hyb.

**Tabl 11: Dadansoddiad cost a budd o ymyraethau'r Hyb yn seiliedig ar astudiaeth achos 3 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (cyfunol)**

| Defnydd o'r gwasanaeth a chanlyniadau | Amcangyfrif o'r gost |
|---|---|
| ***Costau a ysgwyddwyd cyn ymyrraeth yr Hyb*** | |
| **Un achos o fynd ar goll** | £1,500[40] |
| **Cyfanswm** | **£1,500** |
| | |
| ***Costau ymyraethau'r Hyb*** | |
| **Asesiad amddiffyn plant** | £900[41] |
| **Ymweliad gweithiwr cymdeithasol â'r cartref** | £59[42] |
| **Un sesiwn ôl-drafod** | £189[43] |
| **Ymyrraeth camfanteisio'n rhywiol ar blant Barnardo's** | £2,918[44] |
| **Cyfanswm** | **£4,066** |
| | |
| ***Costau a gafodd eu hosgoi o bosibl oherwydd ymyrraeth yr Hyb*** | |
| **Dim achosion eraill o fynd ar goll** | £1,500 |
| **Dim troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant** | £663 (cyllidol) + £1,795 (cymdeithasol) [45] |
| **Cyfanswm** | **£2,458** |
| | |
| **Manteision cost (costau a gafodd eu hosgoi – cost ymyraethau'r Hyb)** | **- £1,608** |

12.6 Nododd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a'r holl staff fod yr Hyb yn cynnig gwerth da am arian. Awgrymodd rhanddeiliaid fod yr Hyb yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y rhesymau canlynol: mae'n helpu i leihau'r galw ar wasanaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau

[40] Cyfrifwyd cost achosion o fynd ar goll yn unol â throednodyn 37.
[41] Cost asesiad amddiffyn plant, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[42] Cost fesul ymweliad gweithiwr cymdeithasol â'r cartref, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy.
[43] Cyfrifwyd costau sesiynau ôl-drafod yn unol â throednodyn 37.
[44] Cost gyfartalog ymyrraeth camfanteisio'n rhywiol ar blant Barnardo's, yn unol ag amcangyfrif Barnardo's: http://www.barnardos.org.uk/an_assessment_of_the_potential_savings_from_barnardo_s_interventions_for_young_people_who_have_been_sexually_exploited_-_full_research_report__final_.pdf
[45] Cost gyfartalog fesul digwyddiad troseddol, yn unol â chronfa ddata costau unedol Manchester New Economy, o ran manteision cyllidol a chymdeithasol.

cymdeithasol a'r heddlu; mae'n fwy effeithlon na dulliau gweithredu blaenorol; mae'n lleihau achosion o fynd ar goll a chostau gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

12.7 Fel y nodwyd yn yr adroddiad ffurfiannol, mae'n bosibl y byddai'r Hyb yn gallu dangos yn well ei fod yn rhoi gwerth am arian yn y dyfodol drwy gofnodi data canlyniadau meintiol cadarn, fel statws addysg neu hyfforddiant person ifanc cyn ac ar ôl ymyrraeth yr Hyb. Byddai data o'r fath yn golygu bod modd cyfrifo costau a buddion yn fwy effeithiol.

## 13. Casgliad

13.1 Mae'r Hyb yn brosiect arloesol sy'n datblygu o hyd, ac mae'n darparu gwasanaeth unigryw mewn perthynas â phlant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll yn rhanbarth Gwent. Ceir tystiolaeth bod prif feysydd gwaith yr Hyb yn cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â'r ddamcaniaeth newid ac arferion da ar gyfer gwaith amlasiantaeth. Hefyd, mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg mewn rhai achosion yn dangos bod gwaith yr Hyb yn arwain at yr effeithiau a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll.

13.2 Fodd bynnag, fel y nodwyd gydol yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiad ffurfiannol, mae cynllunio strategol, monitro, rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn feysydd allweddol y gallai'r Hyb eu datblygu o hyd. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i fynd ati'n gyson i ddangos ei werth a nodi i ba raddau y mae'n sicrhau ei ganlyniadau arfaethedig. Hefyd, bydd yn dangos effaith yr Hyb yn fwy eglur.

## Adran Cyfeiriadau

Y Swyddfa Gartref (2014) Multi-Agency Working and Information Sharing Project Final Report.

NSPCC (2010) Disguised compliance: An NSPCC factsheet.

Shalev-Greene, K. a Pakes, F. (2013) 'The Cost of Missing Person Investigations: Implications for Current Debates'.

The Effective Services for Vulnerable Groups (2015) Multi-Agency Safeguarding Hubs – Emerging Learning.

## Atodiad A: Astudiaethau Achos yr Ymgynghoriad

1.1 Mae dwy astudiaeth achos gyntaf yr ymgynghoriad yn ymwneud â phobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn y cam ffurfiannol a'r cam cyfunol. Mae astudiaethau achos tri i saith yn ymwneud â phobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn y cam cyfunol.

### Astudiaeth Achos Un (gan gynnwys y camau gwerthuso ffurfiannol a chyfunol)

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.2 Cymerodd y bobl ganlynol ran yng ngham cyfunol yr astudiaeth achos hon:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb ag un gweithiwr proffesiynol: gweithiwr ôl-drafod Llamau;
- cynhaliwyd cyfweliadau â dau weithiwr proffesiynol dros y ffôn: athro o ysgol y person ifanc a gweithiwr cymdeithasol y person ifanc.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.3 Mae'r person ifanc hwn yn 16 oed, mae'n parhau i dderbyn gofal o dan Orchymyn Gofal Llawn ac mae'n byw mewn hostel 16+. Ar hyn o bryd mae ganddo ddatganiad anghenion addysgol arbennig ac mae'n cael cynnig sesiwn gyda thiwtor am ddwy awr yr wythnos. Fodd bynnag, nid yw'n manteisio ar y cyfle hwn yn ôl yr ysgol. Mae'n parhau i fynd ar goll yn rheolaidd, tua 3-4 gwaith yr wythnos ar gyfartaledd. Rhoddodd y person ifanc y rhesymau canlynol dros fynd ar goll:

- mae'n diflasu pan mae ei ofalwyr yn symud ei deledu am 11pm ac mae'n methu cysgu yn aml felly mae'n mynd allan;
- nid yw'n cael mynd i'r gegin yn y nos ac mae'n mynd allan achos bod chwant bwyd arno.

Mae'n ymddangos bod y rhesymau hyn wedi aros yn ddigyfnewid yn y bôn ers y cam ffurfiannol.

1.4 Hefyd, nododd y gweithiwr cymdeithasol fod mam y person ifanc yn 'ffactor dylanwadol' o ran pam mae'n mynd allan. Nododd y gweithiwr cymdeithasol fod natur yr achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll wedi newid, oherwydd er ei fod yn parhau i fynd ar goll yn rheolaidd, yn aml mae ar goll am lai o amser ac mae'n dychwelyd wedyn.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn ers mis Mai 2015*

1.5 Nododd y person ifanc ei fod yn parhau i gael sesiynau ôl-drafod. Fodd bynnag, er ei fod yn teimlo bod y gweithwyr ôl-drafod yn gwrando arno, nid oedd yn credu bod y sesiynau hyn yn ddefnyddiol.

1.6 Dywedodd ei weithiwr cymdeithasol ei bod yn ymddangos bod yr Hyb yn ymwneud llai â'r person ifanc bellach, a'i fod yn llai rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth.

1.7 Nododd y gweithiwr cymdeithasol fod elfen rhannu gwybodaeth gwaith yr Hyb yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth ddod o hyd i wybodaeth am y lleoliadau lle mae'r person ifanc yn mynd ar goll a'r bobl ifanc eraill y mae'n ymwneud â nhw a'u peryglon cysylltiedig.

*Gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi cyfrannu ers mis Mai 2015*

1.8 Roedd y person ifanc yn teimlo nad oedd y gweithwyr cymdeithasol na'r gofalwyr yn deall ei sefyllfa yn dda. Er eu bod eisoes yn gwybod am ei sefyllfa, dywedodd ei fod yn gorfod eu hatgoffa nhw am ei sefyllfa o hyd. Dywedodd nad yw gweithwyr proffesiynol yn cydweithio'n

dda i'w gefnogi gan nad yw ei lety â chymorth presennol yn addas iddo. Hefyd, dywedodd y person ifanc fod ei ofalwyr yn nodi ei fod ar goll pan nad yw ar goll, er enghraifft, yn ystod y prynhawn.

1.9 Yn yr un modd, dywedodd y gweithiwr ôl-drafod fod y gofalwyr yn dilyn y protocol weithiau, ond nid bob amser, sy'n golygu eu bod yn cofnodi bod y person ifanc ar goll mewn ffordd amhriodol ar adegau, er gwaetha'r ffaith fod yr Hyb wedi darparu hyfforddiant yno sawl gwaith.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc ers mis Mai 2015*

1.10 Fel yn y cam blaenorol, nid oedd unrhyw un o'r rhai a holwyd yn teimlo bod cyfraniad yr Hyb wedi cael effaith ar y person ifanc o ran ei debygolrwydd o fynd ar goll. Fodd bynnag, dywedodd y person ifanc ei hun ei fod yn gwybod sut i gadw'n ddiogel pan ei fod ar goll, ond nad yr Hyb a oedd yn gyfrifol am y ffaith honno.

*Meysydd newydd i'w gwella*

1.11 Dywedodd y person ifanc y byddai modd i'r gweithiwr cymdeithasol a'i ofalwyr wrando arno a chydymdeimlo ag e i raddau mwy.

1.12 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad yw'r Hyb wedi darparu digon o gymorth yn ymwneud ag achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll. Awgrymodd y gallai'r Hyb wella ei gyfraniad drwy fynd ati'n fwy rhagweithiol i rannu gwybodaeth a thrwy fynychu cyfarfodydd strategaeth er mwyn rhannu syniadau.

**Astudiaeth Achos Dau (gan gynnwys y camau gwerthuso ffurfiannol a chyfunol)**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.13 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos hon:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc yng ngŵydd ei gweithiwr ôl-drafod;
- cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb ar wahân â dau weithiwr proffesiynol: gofalwr hostel 16+ Llamau a gweithiwr ôl-drafod y person ifanc.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.14 Mae'r person ifanc 16 oed hwn yn byw mewn hostel 16+ bellach ac nid yw wedi mynd ar goll ers pedwar mis.

1.15 Nodwyd ffactorau risg amrywiol yn ymwneud â'r person ifanc hwn, gan gynnwys: digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a chamfantais rhywiol. Fodd bynnag, mae'r peryglon hyn wedi lleihau yn sylweddol bellach gan fod y person ifanc yn mynd ar goll yn llai aml.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn ers mis Mai 2015*

1.16 Dywedodd y person ifanc a gofalwr yr hostel 16+ fod yr Hyb yn cyfrannu llai at yr achos hwn gan nad yw'r person ifanc yn mynd ar goll bellach. Fodd bynnag, mae'r naill a'r llall wedi nodi pwysigrwydd natur hirdymor cymorth yr Hyb. Hefyd, nododd gofalwr y person ifanc gyfraniad yr Hyb at waith amlasiantaeth effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc.

1.17 Nododd y person ifanc, y gofalwr a'r gweithiwr ôl-drafod nad yw'r person ifanc yn mynd ar goll bellach gan nad yw'n defnyddio cyffuriau nac yn cymdeithasu â'r un bobl erbyn hyn.

*Gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi cyfrannu ers mis Mai 2015*

1.18 Dywedodd gofalwr yr hostel 16+ fod y person ifanc wedi meithrin perthynas ar sail ymddiriedaeth â'i gweithwyr a bod ffiniau cymharol gadarn wedi'u pennu gan ei bod yn fwy aeddfed a hyblyg bellach. Ar hyn o bryd, mae'r person ifanc yn derbyn cymorth cyson gan ei gofalwr, ei gweithiwr cymdeithasol, swyddog yr heddlu arbenigol, swyddog tai a gweithiwr camddefnyddio sylweddau.

1.19 Dywedodd gofalwr yr hostel 16+ fod pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o hanes y person ifanc ac yn deall ei chymeriad. Dywedodd na fu'n rhaid i'r person ifanc ailadrodd ei hanes dro ar ôl tro oherwydd bod y gweithiwr ôl-drafod wedi gallu adrodd ei hanes wrth wneud atgyfeiriadau newydd. Pan ddaeth y person ifanc i'r hostel 16+ am y tro cyntaf, roedd ganddi saith o weithwyr, ond mae'r gofalwr wedi llwyddo i leihau hynny i nifer fach o weithwyr cyson sy'n cydweithio'n dda, sy'n bwysig i'r person ifanc. Fodd bynnag, nododd y gofalwr yr anawsterau gyda chyfarfodydd prawf a MAPPA a'r ffaith nad ydynt yn fodlon rhannu gwybodaeth am gytundebau trwydded.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc ers mis Mai 2015*

1.20 Dywedodd y person ifanc nad yw hi'n mynd ar goll bellach oherwydd bod ei sefyllfa yn sefydlog ac mae'r rhesymau pam ei bod yn mynd ar goll o'r blaen wedi'u datrys. Mae'r person ifanc a'i gofalwr yn priodoli hyn yn rhannol i gymorth hirdymor yr Hyb.

1.21 Dywedodd gofalwr yr hostel 16+ fod y cymorth priodol yn cael ei ddarparu bellach ar gyfer y person ifanc a'i bod yn annhebygol o fynd ar goll eto. Hefyd, mae'n gwybod sut i gadw'n ddiogel ac mae'n ymwybodol o beryglon. Priodolwyd hyn yn rhannol i gyfraniad yr Hyb.

*Meysydd newydd i'w gwella*

1.22 Ni awgrymodd y person ifanc, y gofalwr na'r gweithiwr cymdeithasol unrhyw feysydd i'w gwella ar gyfer cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn.

**Astudiaeth Achos Tri (Newydd)**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.23 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â mam y person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad ag un gweithiwr proffesiynol: gweithiwr ôl-drafod Llamau.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.24 Mae'r person ifanc hwn yn 17 oed ac mae'n byw gyda'i rieni yng nghartref y teulu. Roedd y person ifanc yn mynd ar goll yn rheolaidd dros gyfnod o dri mis yn 2014, a hynny am sawl diwrnod ar y tro yn aml. Rhoddodd y person ifanc y rhesymau canlynol dros fynd ar goll:

- roedd ganddo berthynas anodd â'i rieni ac yn teimlo nad oeddent yn ei ddeall;
- roedd yn teimlo'n llawn dicter pan oedd pethau'n mynd 'o chwith' ac roedd yn tueddu i fynd allan gan na allai ymdopi â'r sefyllfa;
- mae ganddo gariad ac mae'n teimlo ei bod yn ei hamddiffyn drwy fynd ar goll gyda hi.

1.25 Nododd ei fam a'r gweithiwr ôl-drafod fod ei gariad yn 'ffactor dylanwadol' o ran pam mae'n mynd allan. Eglurwyd bod y person ifanc wedi cael anawsterau emosiynol o ganlyniad i ddwy brofedigaeth yn y teulu yn ddiweddar a'r ffaith ei fod wedi cael diagnosis hwyr o syndrom

Asperger. Dywedodd ei fam ei fod yn mynd yn sâl yn aml pan oedd ar goll oherwydd ei fod yn gwersylla am sawl diwrnod ar y tro.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

1.26 Dywedodd y person ifanc ei fod wedi cael sesiwn ôl-drafod:

> *'Fe ddaeth rhywun o Llamau i siarad â mi gartref ar ôl i mi fynd ar goll. Roedd y sesiwn yn ddefnyddiol a buon ni'n trafod y rhesymau pam rwy'n mynd ar goll a'r peryglon posibl os rwy'n mynd ar y strydoedd eto.'*

1.27 Dywedodd y person ifanc fod y gweithwyr ôl-drafod wedi mynegi ei safbwyntiau'n dda i'r gweithwyr proffesiynol eraill a'u bod wedi ei addysgu beth i'w ddweud i'w helpu i ddeall ei sefyllfa.

1.28 Cadarnhaodd ei fam ei bod yn ymwybodol ei bod wedi derbyn sesiwn ôl-drafod amserol ar ôl i'r gweithiwr ôl-drafod ddod i siarad â hi yn y gwaith. Yn ei barn hi:

> *'Roedd yn ddefnyddiol achos bod yr Hyb yn deall ei sefyllfa'n dda. Hefyd, roedd y gweithiwr ôl-drafod yn awyddus iawn i 'fynd â'r maen i'r wal'.* Roedd hyn yn cynnwys *'bwrw iddi i weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol'.*

1.29 Dywedodd y person ifanc fod y cymorth a gafodd yn sgil atgyfeiriad yr Hyb wedi helpu i wella ei sefyllfa. Fodd bynnag, teimlai ei fod yn gorfod egluro ei sefyllfa nifer o weithiau i bobl wahanol.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

1.30 Yn dilyn ymyrraeth yr Hyb, cafodd y person ifanc gymorth gan dîm dros 14 oed y gwasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, CAMHS a'r Gwasanaeth Cymorth Cam-drin Domestig (DASS) er mwyn helpu i fynd i'r afael â'i 'ymddygiad ymosodol'.

1.31 Dywedodd ei fam fod y person ifanc *'wedi cymryd yn erbyn pawb sy'n gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn meddwl na fyddan nhw'n helpu'.* Felly, roedd y ffaith fod y gweithiwr ôl-drafod wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ei ran wedi bod o gymorth. Roedd ganddi agwedd gadarnhaol tuag at gyfraniad yr heddlu a'r tîm troseddau ieuenctid. Dywedodd ei fam fod y person ifanc wedi cael yr un neges gan lawer o weithwyr proffesiynol gwahanol ynglŷn â'r peryglon sy'n gysylltiedig â bod ar goll, a'i fod wedi deall y peryglon yn sgil hynny.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

1.32 Dywedodd mam y person ifanc fod cyfraniad yr Hyb wedi cael effaith arno gan ei fod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arno bellach. Yn benodol, bu'r gwaith gyda DASS yn bwysig, gan olygu ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll bellach. Nododd y fam ei bod yn gallu cynorthwyo ei mab yn well erbyn hyn.

1.33 Dywedodd y person ifanc ei fod yn teimlo'n llai tebygol o fynd ar goll bellach gan nad yw'n 'cynhyrfu cymaint' a bod ei sefyllfa'n fwy sefydlog oherwydd bod ganddo swydd. Hefyd, dywedodd fod y cymorth a roddwyd iddo, gan Teuluoedd yn Gyntaf er enghraifft, wedi'i helpu i beidio â mynd ar goll ac i ddeall y peryglon. Fodd bynnag, dywedodd *'os bydd pethau'n mynd o chwith bydda i'n mynd ar y strydoedd eto'* a bod angen mwy o gymorth arno i'w atal rhag mynd ar goll eto.

*Meysydd i'w gwella*

1.34 Awgrymodd mam y person ifanc y gallai 'cyflymder gwasanaethau' gan weithwyr proffesiynol cysylltiedig fod wedi'i wella, yn benodol o safbwynt addysg (gan nad oeddent yn ymateb yn ei

hen ysgol) a CAMHS (a oedd wedi'i roi ar restr aros dwy flynedd). Er ei fod yn credu bod pobl wedi 'gwneud yn dda' i'w gefnogi, dywedodd y person ifanc y byddai wedi hoffi cael dewis amgen i redeg i ffwrdd pan ei fod yn teimlo'n ddig. Er enghraifft, byddai wedi hoffi cael rhywle arall i fynd am y nos ac amser oddi cartref.

**Astudiaeth Achos Pedwar (Newydd)**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.35 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â rhieni'r person ifanc (y fam a'r tad);
- cynhaliwyd cyfweliad ag un gweithiwr proffesiynol: gweithiwr ôl-drafod Llamau.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.36 Mae'r person ifanc hwn yn 18 oed ac mae hi'n byw gyda'i rhieni yng nghartref y teulu. Roedd y person ifanc yn mynd ar goll yn rheolaidd dros gyfnod o tua blwyddyn ar ôl 2013. Dywedodd y person ifanc mai ymddygiad ymosodol ei brawd hŷn tuag ati oedd y rheswm pam ei bod yn mynd ar goll.

1.37 Nodwyd ffactorau risg fel gweithgarwch troseddol a chamfantais rhywiol yng nghyswllt y person ifanc hwn pan oedd hi'n mynd ar goll.

1.38 Nododd rhieni'r person ifanc y rhesymau canlynol am y ffaith ei bod yn mynd ar goll:

- ceisio ei chanfod ei hun oherwydd ei statws gofal;
- roedd wedi stopio mynd i'r ysgol gan ei bod yn cael ei bwlio ac nad oedd ganddi ffrindiau. Dechreuodd gymdeithasu â phobl ifanc a oedd yn ddylanwad drwg arni, gan fynd ar goll gyda nhw.

1.39 Hefyd, nododd y gweithiwr ôl-drafod fod camdriniaeth gan frawd y person ifanc yn 'ffactor dylanwadol', ac aeth ati i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant. Hefyd, nododd 'ffactor dylanwadol' a pheryglon cysylltiedig y rhieni biolegol, gan gynnwys presenoldeb troseddwyr rhyw a grŵp o bobl ifanc troseddol.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

1.40 Dywedodd y person ifanc ei bod wedi cael sesiwn ôl-drafod ychydig wythnosau ar ôl mynd ar goll. Dywedodd fod y sesiwn wedi'i helpu i siarad am y rhesymau pam y mae'n mynd ar goll a meddwl am ddewis gwahanol i redeg i ffwrdd. Dywedodd y person ifanc fod y gweithwyr ôl-drafod wedi gwrando arni a'i deall. Dywedodd:

> *'Rwy'n methu siarad â phobl eraill gan nad ydyn nhw'n fy neall nac yn fy nghredu i. Yn hytrach, maen nhw'n credu fy rhieni sy'n dweud rhywbeth gwahanol, ond mae hi (y gweithiwr ôl-drafod) yn fy nghredu ac yn siarad â nhw ar fy rhan er mwyn lleisio fy marn'.*

1.41 Dywedodd rhieni'r person ifanc fod y gweithiwr ôl-drafod yn siarad â'r person ifanc 'mewn ffordd dda ac yn gwybod sut i ddelio â'r sefyllfa' a'i bod wedi gwrando'n dda ar eu merch.

1.42 Dywedodd y person ifanc fod cyfraniad yr Hyb wedi helpu ei sefyllfa drwy sicrhau ei bod yn derbyn cymorth gan bobl sy'n deall ei sefyllfa, yn enwedig y gweithiwr cymdeithasol a'r gweithiwr atal.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

1.43 Dywedodd y rhieni fod gormod o asiantaethau yn rhan o'r broses ar adegau, gan nodi bod chwech neu saith gweithiwr proffesiynol wedi mynychu un cyfarfod ac nad oeddent yn sicr am eu rôl. Fodd bynnag, nid oeddent yn teimlo bod gwaith yn cael ei ddyblygu gan y gweithwyr proffesiynol. Roeddent yn teimlo bod yr heddlu wedi gweithio'n dda yn gyffredinol, gan egluro'r peryglon i'w merch. Fodd bynnag, roedd rhai heddweision a oedd yn ei gweld yn rheolaidd wedi diflasu, gan ddweud bod ganddynt bethau gwell i'w gwneud. Hefyd, dywedodd y rhieni eu bod wedi derbyn cymorth da gan Bennaeth Blwyddyn yr ysgol a gan y gweithiwr atal.

1.44 Er bod y person ifanc wedi nodi bod y gweithwyr proffesiynol yn deall ei sefyllfa yn dda, nid oedd yn hoffi'r ffaith fod pobl yn siarad am ei 'busnes', ac roedd yn teimlo'n ddig o'r herwydd.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

1.45 Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod na fu unrhyw achosion o'r person ifanc yn mynd ar goll ers dros bum mis. Yn ei barn hi, y rheswm pennaf am hynny oedd y ffaith nad oedd y person ifanc yn cymdeithasu â grŵp o bobl ifanc beryglus a throseddol bellach o ganlyniad i wybodaeth a oedd wedi'i rhannu yn y sesiwn ôl-drafod, ei rhannu â'r heddlu a'i rhoi ar waith. Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod fod y person ifanc yn teimlo bod pobl yn gwrando arni bob amser yn y sesiynau ôl-drafod.

1.46 Fodd bynnag, er nad oedd y person ifanc yn mynd ar goll bellach, dywedodd ei rhieni ei bod yn parhau i wynebu perygl gan ei chariad presennol am resymau eraill.

1.47 Dywedodd y person ifanc ei bod yn teimlo bod mwy o gymorth ar gael iddi bellach, yn enwedig gan ei gweithiwr cymdeithasol, y gweithiwr atal a'r gweithiwr ôl-drafod, sydd wedi egluro'r peryglon o fynd ar goll, er enghraifft drwy ddangos DVDs iddi. O ganlyniad i'r cymorth hwn a'r ffaith nad yw'n 'cynhyrfu cymaint', mae'n teimlo'n llai tebygol o fynd ar goll bellach. Hefyd, dywedodd:

> *'Rwy'n teimlo bod fy rhieni yn fy neall ychydig yn well bellach. Maen nhw'n fy ffonio ac yn fy nhecstio i ofyn ble ydw i a sut ydw i yn hytrach na dweud wrth bobl fy mod i ar goll. Mae hyn wedi deillio o'r holl gymorth sydd ar gael a'r ffaith eu bod wedi siarad â'm rhieni.'*

*Meysydd i'w gwella*

1.48 Awgrymodd rhieni'r person ifanc y gallai'r Hyb fod wedi ymyrryd yn gynt. Hefyd, byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth gan y gweithiwr ôl-drafod am y rhesymau pam fod eu merch yn mynd ar goll ynghyd â chyngor ar beth i'w wneud.

**Astudiaeth Achos Pump (Newydd)**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.49 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos hon:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â mam y person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad dros y ffôn ag un o athrawon ysgol y person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â gweithiwr cyfryngu proffesiynol y person ifanc.

1.50 Aeth y person ifanc 16 oed ar goll am y tro cyntaf blwyddyn a 6 mis yn ôl ac mae hi wedi mynd ar goll yn rheolaidd ers hynny. Fel arfer, mae'n mynd ar goll yn ystod y nos drwy ddringo allan o'r ffenestr. Mae gan y person ifanc anawsterau dysgu, gan gynnwys oediad datblygiad cyffredinol (*global development delay*).

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

1.51 Dywedodd y person ifanc a'r gweithiwr cyfryngu proffesiynol eu bod wedi cael sesiwn ôl-drafod bedwar diwrnod ar ôl i'r person ifanc fynd ar goll a bod sesiynau cyfryngu wedi dechrau yn fuan wedyn. Dywedodd y gweithiwr cyfryngu ei bod yn cael sesiynau wythnosol cyson gyda'r person ifanc a'i mam.

1.52 Dywedodd y person ifanc fod y gweithiwr ôl-drafod wedi bod o gymorth, a'u bod wedi siarad am y rhesymau pam ei bod yn rhedeg i ffwrdd ac am ble mae hi'n mynd. Teimlai fod y gweithiwr ôl-drafod yn gwrando arni a'i bod yn llwyddo i sicrhau bod mam a nain y person ifanc yn gwrando ar ei safbwynt.

1.53 Dywedodd athro'r person ifanc fod gwaith rhannu gwybodaeth yr Hyb wedi helpu i hysbysu'r ysgol am achosion o fynd ar goll y tu allan i'r ysgol a datblygu darlun o'r person ifanc. Drwy wirio'r MIRAF yn rheolaidd, dywedodd yr athro fod modd rhoi mesurau ataliol ar waith yn yr ysgol, fel addasu'r cwricwlwm a'r cymorth bugeiliol sy'n cael ei gynnig i'r person ifanc.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

1.54 Yn ogystal â'r gweithiwr ôl-drafod, dywedodd y person ifanc mai ei gweithiwr cymdeithasol a'r gweithiwr cyfryngu a oedd yn ei deall orau.

1.55 Fodd bynnag, dywedodd y person ifanc ei bod yn gorfod ailadrodd ei hanes sawl gwaith i weithwyr proffesiynol gwahanol yn aml, a bod hynny'n anodd.

1.56 Dywedodd mam y person ifanc fod heddwas wedi ceisio gwneud gwaith diogelwch gyda hi a oedd yn cynnwys gwirio ei ffôn. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith hwn wedi gwneud unrhyw wahaniaeth yn ôl y fam gan nad yw ei merch yn gwrando nac yn ymgysylltu.

1.57 Dywedodd athro'r person ifanc fod y gwaith cyfryngu yn cyd-fynd yn dda â dull gweithredu cyfiawnder adferol yr ysgol. Fodd bynnag, dywedodd y gallai gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd gyfrannu at ddarparu cymorth i'r person ifanc gan nad ydynt yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth a gynhelir yn yr ysgol ar hyn o bryd.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

1.58 Dywedodd y gweithiwr cyfryngu ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar y person ifanc a'i mam drwy fabwysiadu agwedd gyson, barhaus a hirdymor tuag at weithio gyda nhw. O ganlyniad, nododd y gweithiwr cyfryngu fod y fam a'r person ifanc wedi'u hannog i ymgysylltu'n well â'r gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, awgrymodd y gweithiwr cyfryngu fod effaith yr Hyb wedi'i chyfyngu gan ddiffyg gwasanaethau cymorth hirdymor priodol i atgyfeirio'r person ifanc atynt am gymorth.

1.59 Dywedodd y person ifanc ei bod yn llai tebygol o fynd ar goll yn awr o ganlyniad i'r gwasanaeth cyfryngu. Mae'n teimlo ei bod yn gallu siarad â'i theulu a'i ffrindiau yn hytrach na mynd ar goll.

1.60 Fodd bynnag, dywedodd mam y person ifanc ei bod yn parhau i fynd ar goll yn rheolaidd.

1.61 Dywedodd y gweithiwr cyfryngu y byddai'r person ifanc yn llai tebygol o fynd ar goll pe bai cymorth ar gael ar gyfer ei mam i ddatblygu sgiliau rhianta a gosod ffiniau a phe bai'r person ifanc yn derbyn cymorth parhaus a chyson gan weithiwr cymorth un i un.

1.62 Dywedodd athro'r person ifanc ei bod yn parhau i fod yn debygol o fynd ar goll ac y byddai mewn perygl mawr tra ei bod ar goll oherwydd ei hanawsterau dysgu a'i dealltwriaeth o'r byd.

*Meysydd i'w gwella*

1.63 Teimlai'r person ifanc fod angen cymorth parhaus arni gan y gwasanaethau cymdeithasol, a oedd wedi rhoi'r gorau i'w chynorthwyo. Hefyd, nid oedd yn credu bod asiantaethau yn cydweithio'n dda i'w chynorthwyo gan fod *'pobl yn dweud pethau gwahanol wrthyf'*.

1.64 Dywedodd mam y person ifanc nad yw hi wedi derbyn digon o gymorth i ofalu am ei merch, yn enwedig o ystyried ei bod yn parhau i fynd ar goll. Teimlai'r fam fod perygl y bydd pobl yn camfanteisio ar ei merch tra ei bod ar goll.

1.65 Er bod y broses o rannu gwybodaeth o gymorth mawr, dywedodd athro'r person ifanc y byddai'n ddefnyddiol i'r Hyb fynychu cyfarfodydd amlasiantaeth a gynhelir gan yr ysgol i drafod y person ifanc. Hefyd, teimlai y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol gael rhywfaint o hyfforddiant cyffredinol yn ymwneud â phlant sy'n mynd ar goll a'r peryglon cysylltiedig, yn ogystal â hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r MIRAF.

**Astudiaeth Achos Chwech (Newydd)**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.66 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos hon:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â gweithiwr cymdeithasol y person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â gweithiwr ôl-drafod Llamau.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.67 Mae'r person ifanc yn 17 oed. Mae'n derbyn gofal o dan Orchymyn Gofal Llawn ac mae'n byw mewn hostel 16+. Mae'n mynd ar goll yn rheolaidd, sef tua 15 gwaith y mis yn ôl y gweithiwr ôl-drafod, ac mae'n wynebu peryglon mawr pan ei fod ar goll, gan gynnwys: camddefnyddio cyffuriau, camfantais rhywiol a masnachu pobl.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

1.68 Dywedodd y person ifanc ei fod wedi cael sesiwn ôl-drafod tua deuddydd ar ôl iddo fynd ar goll am y tro cyntaf o'i lety hostel 16+. Roedd yn hoffi'r ffaith fod y gweithiwr ôl-drafod wedi mynd ag ef allan o'r hostel 16+ er mwyn cael sgwrs breifat. Dyma ei farn ar y gweithiwr ôl-drafod:

> *'Roedd ganddi agwedd dda a dynol, yn wahanol i rywun sy'n meddwl ei fod yn gwybod popeth. Dwi ddim yn hoffi hynny a dwi ddim yn fodlon cymryd rhan wedyn. Fe ges i wybodaeth a chyngor ganddi a buon ni'n trafod y peryglon posibl os dwi'n mynd ar goll'.*

1.69 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod gan y gweithiwr ôl-drafod berthynas dda â'r person ifanc gan ei bod wedi gweithio gydag ef am amser hir a'i bod wedi mynychu llawer o gyfarfodydd fel eiriolwr y person ifanc. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn defnyddio'r MIRAF a gwblhawyd gan yr Hyb ar gyfer y person ifanc hwn, ond yn ddiweddar roedd yr Hyb yn llai rhagweithiol yn rhannu gwybodaeth yn ôl y gweithiwr cymdeithasol. Yn gyffredinol, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr Hyb yn cyfrannu. Yn benodol, roedd yn credu bod y cysylltiad â'r heddlu wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r person ifanc drwy gydgysylltu'r holl waith a'i helpu i gadw yn ddiogel. Nid oedd hyn yn digwydd o'r blaen.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

1.70 Dywedodd y person ifanc fod cyfraniad y gofalwyr yn ei hostel 16+ wedi gwella oherwydd eu bod yn ei ddeall yn well ac yn gallu ei dawelu pan ei fod yn cynhyrfu.

1.71 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod rhwydwaith cymorth da ar gael i'r person ifanc yn ei lety hostel 16+.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

1.72 Dywedodd y person ifanc ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll yn awr a bod y gweithiwr ôl-drafod yn ei gefnogi ac yn gwrando arno. Fodd bynnag, nid oedd yn priodoli'r ffaith ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll yn uniongyrchol i ymyrraeth yr Hyb. Yn hytrach, dywedodd:

> *'Dwi ond yn mynd ar goll pan fydda i'n dechrau teimlo'n ddig, a dwi ddim yn teimlo'n ddig mor aml bellach oherwydd dwi'n delio â'r sefyllfa fy hun'.*

1.73 Hefyd, dywedodd y person ifanc ei fod yn llai tebygol o fynd ar goll gan nad yw wedi cymryd anterth cyfreithlon ers tri mis.

1.74 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod y person ifanc yn llai tebygol o fynd ar goll gan nad yw ei gymheiriaid yn y ddinas yn ffactor dylanwadol bellach oherwydd ei fod yn eu hofni.

1.75 Dywedodd y person ifanc ei fod yn fwy tebygol o'i gadw ei hun yn ddiogel bellach oherwydd ei fod yn *'hŷn ac yn gwybod mwy am fywyd ar y stryd.'* Fodd bynnag, dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod y person ifanc yn parhau i fod mewn perygl mawr o niwed pan ei fod ar goll oherwydd y posibilrwydd o orddos o gyffuriau.

*Meysydd i'w gwella*

1.76 Roedd y person ifanc yn credu bod yna le i rai pobl ei ddeall yn well, gan gynnwys ei fam a'r gofalwyr yn ei lety â chymorth.

1.77 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol y byddai'r person ifanc wedi elwa ar fwy o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan yr Hyb, gan nodi'n benodol nad yw'r tîm gwasanaethau cymdeithasol dros 16 oed yn derbyn rhybuddion gan yr Hyb am bobl ifanc sy'n mynd ar goll, felly ni allant ganfod unrhyw batrymau. Yn ôl y gweithiwr cymdeithasol, maes arall y gellid ei wella yw diffyg presenoldeb yr Hyb mewn cyfarfodydd strategaeth ar gyfer y person ifanc hwn a phobl ifanc eraill sy'n mynd ar goll, a'r ffaith nad yw'r Hyb yn cyfrannu at y broses cynllunio gofal ar gyfer y person ifanc.

## Astudiaeth Achos Saith (Newydd)

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

1.78 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos hon:

- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â'r person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb â gofalwr maeth y person ifanc;
- cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb ag un gweithiwr ôl-drafod Llamau.

*Cyd-destun yr unigolyn*

1.79 Mae'r person ifanc 14 oed wedi byw gyda gofalwr maeth ers mis Mai 2015.

1.80 Yn y dechrau, roedd hi'n byw gyda'i mam a oedd yn alcoholig. Roedd ei thad yn alcoholig hefyd, ac er nad oedd ei rhieni'n byw gyda'i gilydd, roeddent yn dadlau yn rheolaidd. Ers

2013 mae'r person ifanc hwn wedi bod yn mynd ar goll bob dydd. Fodd bynnag, ers mis Mai 2015 pan gafodd ei rhoi mewn gofal maeth, dim ond tair gwaith y cofnodwyd ei bod wedi mynd ar goll.

1.81 Dywedodd y person ifanc fod ei ffrindiau blaenorol yn 'ffactor dylanwadol' o ran pam ei bod yn mynd ar goll. Hefyd, nododd y gweithiwr ôl-drafod fod awydd i beidio â byw gartref yn 'ffactor dylanwadol' ar gyfer y person ifanc.

1.82 Mae'r peryglon sy'n wynebu'r person ifanc hwn pan ei bod ar goll yn cynnwys hunan-niwed a chamfantais rhywiol.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

1.83 Dywedodd y person ifanc ei bod wedi cael ymweliad gan y gweithiwr ôl-drafod bob 10 diwrnod pan ei bod yn mynd ar goll bob dydd. Dywedodd fod yr ymweliadau yn ddefnyddiol a bod y gweithiwr ôl-drafod wedi gwrando arni, wedi deall ei safbwynt ac wedi'i gwneud yn ymwybodol o'r peryglon o fynd ar goll. Yn benodol, dywedodd fod y gwaith ôl-drafod wedi'i helpu i roi'r gorau i hunan-niweidio ac wedi gwella ei hyder.

1.84 Dywedodd y gofalwr maeth fod y person ifanc wedi mynd ar goll tair gwaith o Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) yr ysgol ers iddi fod o dan ei gofal. Nododd y gofalwr maeth ei bod wedi derbyn y wybodaeth berthnasol a bod y person ifanc wedi cael sesiwn ôl-drafod y diwrnod ar ôl iddi fynd ar goll am y trydydd tro. Fodd bynnag, gan fod y person ifanc wedi mynd ar goll o'r PRU, aeth y gweithiwr cymdeithasol yno i siarad â hi yn yr ysgol.

1.85 Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod iddi eirioli'n llwyddiannus ar ran y person ifanc mewn cyfarfodydd amlasiantaeth, gan nodi ei bod yn awyddus i gael ei rhoi mewn gofal. Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod ei bod yn gweithio gyda'r person ifanc unwaith yr wythnos. Fodd bynnag, bu'n rhaid iddi leihau hynny gan ei bod yn teimlo bod y person ifanc yn dechrau dibynnu arni. Yn ôl y gweithiwr ôl-drafod, roedd ei gwaith uniongyrchol gyda'r person ifanc yn osgoi'r posibilrwydd o hunan-niwed niweidiol iawn.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

1.86 Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod nad oedd y person ifanc yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'r blaen, a'u bod nhw ond yn gwybod amdani oherwydd yr achosion o fynd ar goll a'r Hyb. Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod fod yr heddlu yn sylweddoli'r perygl i'r person ifanc oherwydd y MIRAF hefyd. Pan oedd y person ifanc yn mynd ar goll yn rheolaidd roedd nifer o asiantaethau'n ymwneud â'i hachos, ond erbyn hyn mae ganddi un gweithiwr cymdeithasol, ac mae'n cyd-dynnu'n well â hi yn ôl y gweithiwr ôl-drafod.

1.87 Dywedodd y person ifanc fod y gweithwyr proffesiynol gwahanol yn cydweithio'n dda i'w chynorthwyo, er ei bod yn teimlo bod angen iddi adrodd ei hanes i weithwyr proffesiynol gwahanol dro ar ôl tro.

1.88 Dywedodd y gofalwr maeth fod llawer o wasanaethau yn ymwneud â'r achos yn y dechrau, a bod hynny wedi peri gofid i'r person ifanc gan ei bod yn gorfod egluro ei hanes sawl gwaith. Fodd bynnag, dywedodd mai'r gweithiwr cymdeithasol a oedd yn deall sefyllfa'r person ifanc orau gan ei bod yn ymwneud â hi bob dydd. Hefyd, dywedodd y gofalwr maeth ei bod yn gallu cynorthwyo'r person ifanc oherwydd ei bod ychydig yn iau ac yn hawdd siarad â hi.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

1.89 Dywedodd y person ifanc ei bod yn llai tebygol o fynd ar goll bellach diolch i waith y gweithiwr ôl-drafod. Dywedodd fod y rhesymau pam ei bod yn mynd ar goll, sef y sefyllfa yn y cartref a'i hen ffrindiau, *'wedi'u datrys'* ers iddi gael ei gosod mewn gofal maeth y tu allan i'r ardal. Dyma rywbeth roedd y gweithiwr ôl-drafod wedi gofyn amdano'n gyson ar ran y person ifanc.

1.90 Dywedodd y gweithiwr ôl-drafod ei bod yn teimlo nad yw'r person ifanc yn mynd ar goll bellach oherwydd bod pobl wedi gwrando arni, ei bod yn byw mewn lle o'i dewis mewn gofal maeth a'i bod yn mynychu ysgol newydd y tu allan i'r ardal. Hefyd, nododd fod cyfraniad y sesiynau ôl-drafod wedi helpu i osgoi'r posibilrwydd o hunan-niwed niweidiol iawn.

1.91 Hefyd, nododd y gofalwr maeth fod newid lleoliad y person ifanc wedi bod yn ffactor allweddol yn y broses o'i hatal rhag mynd ar goll, a'i bod yn byw mewn amgylchedd mwy sefydlog bellach.

*Meysydd i'w gwella*

1.92 Ni wnaeth y person ifanc na'r gofalwr maeth awgrymu unrhyw feysydd i'w gwella ar gyfer cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn.